POLICE AND CRIME PANEL
PANEL HEDDLU A THROSEDD

# Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

Dydd Mawrth, 4 Mehefin 2013 at 2.00 pm
Bodlondeb, Conwy

# RHAGLEN

1. **Penodi Cadeirydd**

2. **Penodi Is-Gadeirydd**

3. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

4. **Datgan Cysylltiad: Cod Ymddygiad Llywodraeth Leol**

   Caiff yr Aelodau eu hatgoffa bod rhaid iddynt ddatgan **bodolaeth** a **natur** eu cysylltiadau personol.

5. **Materion Brys**

   Rhybudd o faterion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

6. **Cofnodion** (Tudalennau 3 - 7)

   Cymeradwyo a llofnodi bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gofnod cywir.

7. **Ystyried yr adroddiadau a ganlyn gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru:**

   a) Yr wybodaeth ddiweddaraf ar lafar gan Gomisiynydd yr Heddlu

   b) Gwrandawiad Cadarnhau ar gyfer y Prif Swyddog Cyllid (Tudalennau 8 - 12)

   c) Adroddiad Blynyddol gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd (Tudalennau 13 - 24)

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

8. **<u>Ystyried yr adroddiadau a ganlyn gan yr Awdurdod Cynnal:</u>**

**a)** Trefn Gwyno (Tudalennau 25 - 37)

**b)** Lwfansau a Threuliau Aelodau (Tudalennau 38 - 40)

**c)** Adolygu Aelodaeth Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (Tudalennau 41 - 48)

**d)** Sesiwn Hyfforddi/Datblygu Cenedlaethol - Gorffennaf 2013 (Tudalen 49)

**e)** Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (Tudalennau 50 - 53)

9. **<u>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:</u>**

Cynhelir cyfarfod nesaf Panel yr Heddlu a Throsedd ar 9 Medi 2013, ond mae angen ystyried cynnal cyfarfod arbennig y Panel ym mis Awst er mwyn cynnal gwrandawiad cadarnhau ar gyfer y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd.

Aelodau'r Panel

| | |
|---|---|
| Cyng William Knightly | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng Glenys Diskin | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng Amanda Bragg | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng Bill Cowie | Cyngor Sir Ddinbychl |
| Cyng Terry Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyng Chris Hughes | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng William T. Hughes | Cyngor Sir Ynys Mon |
| Cyng Charles Jones | Cyngor Gwynedd |
| Cyng Colin Powell | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyng Gethin Williams | Cyngor Gwynedd |
| | |
| Patricia Astbury | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |
| Timothy Rhodes | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |

## PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

Dydd Iau, 7 Mawrth 2013 at 2.00 pm
Bodlondeb, Conwy

| | | |
|---|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd William Knightly Cadeirydd/Chair) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| | Patricia Astbury | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |
| | Cynghorydd Amanda Bragg | Cyngor Sir y Fflint |
| | Cynghorydd Bill Cowie | Cyngor Sir Ddinbych |
| | Cynghorydd William T Hughes | Cyngor Sir Ynys Môn |
| | Cynghorydd Charles Jones | Cyngor Gwynedd |
| | Cynghorydd Colin Powell | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| | Timothy Rhodes | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Anna Humphreys | Prif Weithredwr (Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru) |
| | Gareth Pritchard | Prif Gwnstabl Cynorthwyol (Heddlu Gogledd Cymru) |
| | Winston Roddick | Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| **Swyddogion:** | Ken Finch | Cyfarwyddwr Strategol (Democrataidd, Rheoleiddio a Chefnogi) |
| | Dawn Hughes | Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor |
| | Richard Jarvis | Cyfreithiwr |
| | Sali Morris | Cymhorthydd Gweinyddol |

30. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Glenys Diskin, Terry Evans, Chris Hughes a Gethin Williams.

31. **DATGAN CYSYLLTIAD: COD YMDDYGIAD LLYWODRAETH LEOL**

Dim.

32. **MATERION BRYS**

Dim.

33. **COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion Panel yr Heddlu a Throsedd a gynhaliwyd 19 Rhagfyr 2012 a 21 Ionawr 2013 i'w cymeradwyo.

**PENDERFYNWYD –**

**(a) Cymeradwyo bod cofnodion cyfarfod Panel yr Heddlu a Throsedd a gynhaliwyd 19 Rhagfyr 2012 yn gofnod cywir.**

(b) **Cymeradwyo bod cofnodion cyfarfod Panel yr Heddlu a Throsedd a gynhaliwyd 21 Ionawr 2013 yn gofnod cywir, yn amodol ar newid y gair Panel ym Mharagraff 13, 2il bwynt bwled, yn Cynllun.**

34. **DIWEDDARIAD CYFNODOL GAN GOMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDD**

Rhoddodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (PCC) yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar ei weithgareddau gwaith diweddar fel a ganlyn:

- Wedi bod i gyfarfod gyda Gweinidogion y Swyddfa Gartref.
- Cynrychioli Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd yng nghyfarfod cyntaf y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol newydd.
- Wedi cyfarfod Ysgrifennydd Gwladol Cymru yng Nghaerdydd ac yn lleol
- Wedi cyfarfod y Gweinidog Cymunedau a Llywodraeth Leol (Carl Sargeant) ynglŷn â phwerau wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru.
- Ymgynghori gyda'r Comisiynydd Plant sy'n ymgynghorai statudol ar y Cynllun Heddlu a Throsedd.
- Wedi cyfarfod Cadeirydd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a Rheolwr y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid – gwnaethpwyd argraff ar y Comisiynydd gyda'r gwaith a wnaed gan y gwasanaeth hwn.
- Wedi bod i gyfarfod blynyddol UNSAIN oedd yn gyfle da i ateb cwestiynau a chlywed barn pobl.
- Wedi cyfarfod Comisiynwyr Heddlu a Throsedd eraill Cymru a'r Prif Gwnstabliaid perthnasol.
- Parhau i ymweld â gorsafoedd heddlu ledled Gogledd Cymru.
- Datblygu Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a pholisïau a threfnau perthnasol (Cynllun Llywodraethu).

Rhoddodd y PCC wybod i'r Panel hefyd ei fod wedi gwneud llawer iawn o waith cyfryngau, yn enwedig mewn perthynas â datganoli pwerau.

Rhoddwyd gwybod hefyd bod Aelodau Annibynnol wedi'u penodi i'r Pwyllgor Archwilio ac awgrymodd y PCC efallai yr hoffai'r Panel anfon cynrychiolydd i arsylwi mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Esboniodd y Comisiynydd i'r Aelodau, ar ôl ystyried yn ofalus, ei fod wedi penderfynu bod angen penodi Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd. Bydd proses benodi briodol yn cael ei chynnal a bydd disgwyl i'r Panel gynnal gwrandawiad i gadarnhau.

35. **CYNLLUN HEDDLU A THROSEDD COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynodd y Comisiynydd ei Gynllun Heddlu a Throsedd i'r Panel, dan y testun 'Diogelwch yn y Cartref; Diogelwch mewn Mannau Cyhoeddus'.

Rhoddodd y Cynllun fanylion am bedwar amcan heddlu a throsedd y Comisiynydd, sy'n canolbwyntio ar: leihau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol; diogelu pobl a lleihau niwed; darparu gwasanaeth o ansawdd sy'n diwallu anghenion ein cymunedau; a hyrwyddo llu heddlu sydd wedi'i arwain yn dda, yn drefnus ac yn fedrus. Bydd yr amcanion hyn yn galluogi'r Comisiynydd i fynd i'r afael â'i bum ymrwymiad maniffesto a chyflawni ei ddyletswyddau i ddarparu llu heddlu effeithiol ac effeithlon sy'n dangos gwerth am arian, ac yn bwysicaf oll, yn lleihau troseddau.

Bydd Cynllun Gweithredu hefyd yn dod gyda'r Cynllun Heddlu a Throsedd, a bydd yn galluogi'r Comisiynydd i fesur darpariaeth y pedwar amcan a dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif. Gyda'i gilydd, byddai'r ddwy ddogfen yn cyfathrebu bwriad y Comisiynydd i'r cyhoedd, partneriaid, Panel yr Heddlu a Throsedd a chyfranogion eraill.

Rhoddodd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol (Gareth Pritchard), Heddlu Gogledd Cymru, yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Panel ar faterion gweithredol, oedd yn cynnwys y canlynol:

- Mae troseddau yn erbyn dioddefwyr wedi lleihau 11.2%, sy'n ganlyniad cadarnhaol, ond mae rhagor o waith i'w wneud.

- Ymgynghorwyd ag Undeb Ffermwyr Cymru a'r Undeb Ffermwyr Cenedlaethol mewn perthynas â throseddau gwledig. Daethpwyd o hyd i rai bylchau a bydd tri swyddog (o'r 51 swyddog heddlu ychwanegol) yn cael eu penodi i gefnogi cymunedau ac edrych ar broblemau penodol yn yr ardaloedd hyn.

- Mewn perthynas â diogelwch yn y cartref, rhoddwyd gwybod i'r Panel bod achosion o drais a throseddau rhywiol wedi cynyddu, a cynigiwyd sefydlu Tîm Trais Arbenigol, gan ddefnyddio 6 o'r 51 swyddog heddlu ychwanegol.

- Ar gyfartaledd cafwyd 12,000 o alwadau y flwyddyn mewn perthynas â thrais domestig a phenderfynwyd gwella'r gwaith yn y maes hwn trwy ddefnyddio 3 o'r 51 swyddog heddlu ychwanegol.

- Hefyd bydd 2 swydd iwnifform arall yn cael eu neilltuo i ymdrin ag archwilio troseddau; bydd y swyddi hyn yn hyblyg ac yn dibynnu ar faterion trosedd lleol.

Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â phlismona'r ardaloedd arfordirol, rhoddodd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol wybod y bydd agwedd hyblyg yn cael ei mabwysiadu ac y bydd swyddogion ychwanegol yn cael eu defnyddio yn ôl yr angen, yn enwedig pan fydd galw mawr.

Ystyriodd y Panel y Cynllun ac roedd ychydig o bryder ynglŷn â'r diffyg gwybodaeth rheoli perfformiad a'r gallu i fedru mesur perfformiad mewn modd pendant. Felly gofynnodd yr Aelodau am gael adborth rheolaidd i'r Panel gan y Bwrdd Gweithredu Strategol (y fforwm ar gyfer monitro amcanion heddlu a throsedd); byddai hyn yn galluogi'r Panel i adolygu a mesur perfformiad y Cynllun, yn enwedig yn erbyn ystadegau cenedlaethol.

Gwnaeth y Panel y sylwadau a ganlyn hefyd:

- Yr angen am well mynediad at wefan Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.
- Sicrhau bod y Cynllun a gyhoeddwyd ar gael mewn llyfrgelloedd ar gyfer unigolion sydd heb fynediad i'r fewnrwyd – cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Strategol y bydd angen dosbarthu copi o'r Cynllun i bob Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru i'w gyhoeddi.
- Mewn perthynas â buddsoddiad cyfalaf, gofynnwyd i'r PCC ystyried cynnwys cyfleuster yn Llanelwy yn y Strategaeth Ystadau.
- Patrol OWL– rhoddodd y PCC wybod y bydd cyrff/ymyriadau o'r fath yn cael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn hon i sicrhau effeithlonrwydd, ond ni all y Comisiynydd sicrhau y bydd sefydliadau o'r fath yn parhau i gael arian.
- Yr angen i ymdrin â throseddau cyffuriau yng Ngogledd Cymru. Mewn ymateb rhoddodd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol wybod i'r Panel bod y broblem yn ehangach na Gogledd Cymru, a bod perthnasau yn cael eu datblygu gyda Swyddogion Heddlu yng Ngogledd Orllewin Lloegr. Rhoddwyd gwybod i'r Panel hefyd bod elw troseddau o'r fath yn cael ei roi yn ôl i gymunedau ar ffurf grantiau ar gyfer cynlluniau plismona cymunedol.

Cefnogodd y Panel y Cynllun Heddlu a Throsedd ac agwedd y Comisiynydd wrth sefydlu cyfeiriad strategol ar gyfer plismona yng Ngogledd Cymru. Roedd y Panel hefyd yn cydnabod troseddau gwledig yn y Cynllun, a bwriad y Llu Heddlu i ddefnyddio'r 51 Swyddog Heddlu ychwanegol ledled Gogledd Cymru, yn enwedig mewn perthynas â sefydlu Tîm Trais penodedig; gwella'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Swyddogion Heddlu mewn perthynas â thrais domestig; gwella'r Tîm Archwilio Trosedd; ac adolygu staff swyddfeydd cefn i sicrhau effeithlonrwydd.

Diolchodd y Cynghorydd Colin Powell, Aelod Cyngor Sir Wrecsam, i'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol a Heddlu Gogledd Cymru am yr ymateb a'r gefnogaeth o'r radd flaenaf yn dilyn y llofruddiaeth diweddar yn ardal Wrecsam.

**PENDERFYNWYD-**

**(a) Cefnogi Cynllun Heddlu a Throsedd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru dan y teitl 'Diogelwch yn y Cartref; Diogelwch mewn Mannau Cyhoeddus' oherwydd y rhesymau a nodwyd uchod.**

**(b) Rhoi adborth rheolaidd i Banel yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru gan y Bwrdd Gweithredu Strategol er mwyn monitro cynnydd Cynllun yr Heddlu a Throsedd.**

**(c) Ystyried cynnwys cyfleuster yn Llanelwy yn y Strategaeth Ystadau.**

36. **YSTYRIED RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL DRAFFT PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol drafft Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru i'r Panel.

Gofynnwyd i'r Aelodau gysylltu â'r Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), gydag unrhyw eitemau y maent eisiau eu cynnwys ar y Rhaglen.

**PENDERFYNWYD -**

**Cymeradwyo Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.**

37. **RHAGLEN CYFARFODYDD BWRIEDIG 2013/14**

Ystyriodd y Panel y rhaglen gyfarfodydd fwriedig ar gyfer 2013/14.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod cyfarfod dros dro wedi'i drefnu ar gyfer 12 Ebrill 2013, ar gyfer gwrandawiad cadarnhau posibl y Prif Swyddog Cyllid.

**PENDERFYNWYD –**

**Cymeradwyo'r rhaglen gyfarfodydd fwriedig ar gyfer 2013/14.**

(Daeth y cyfarfod I ben am 3.20 pm)

**EITEM RHAGLEN 7b**

Cynghorydd William Knightly
Cadeirydd
Panel Heddlu a Throsedd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Bodlondeb
Conwy LL32 8DU

Ein Cyf / Our Ref: WR/mm

22 Mai 2013

Annwyl William

**Gwrandawiad Cadarnhau Prif Swyddog Cyllid**

Yn unol â Pharagraff 6, Atodlen 1, Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, mae dyletswydd arnaf i benodi Prif Swyddog Cyllid.

Rydw i felly'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu o'm henwebiad i'r swydd statudol hon. Fy argymhelliad yw y dylid penodi Ms Kate Jackson fel Prif Swyddog Cyllid, Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Gogledd Cymru.

Buaswn yn gwerthfawrogi petai'r Panel Heddlu a Throsedd yn gallu ystyried fy argymhelliad mewn Gwrandawiad Cadarnhau ac adrodd yn ôl i mi er mwyn fy hysbysu a yw fy argymhelliad yn derbyn sêl bendith y panel.

Diben cyffredinol y swydd yw:-

1. Ymgymryd â'r gwaith o weinyddu materion ariannol y Comisiynydd yn gywir, yn unol ag adran 112-124 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (fel y'i diwygiwyd), Cod Rheolaeth Ariannol y Swyddfa Gartref a Pharagraff 6, Atodlen 1, Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.
2. Gweithredu fel Ymgynghorydd Ariannol y Comisiynydd.
3. Gweithredu fel y Swyddog Cyfrifol o dan adran 151, Deddf Llywodraeth Leol 1972.
4. Cefnogi'r Prif Weithredwr yn ôl yr angen.

Y meini prawf rydw i wedi'u defnyddio i benderfynu ar fy enwebiad yw:

1. Cyfrifol am reolaeth ariannol, sicrhau bod fy materion ariannol yn cael eu gweinyddu'n gywir a bod rheoliadau ariannol yn cael eu cadw atynt ac yn cael eu diweddaru.
2. Cyfrifoldeb am sicrhau rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian yn y defnydd o arian cyhoeddus.
3. Sicrhau bod y cyllid sydd ei angen i ariannu rhaglenni y cytunwyd arnynt ar gael gan y Llywodraeth Ganolog a Llywodraeth Cymru, y praesept, cyfraniadau eraill ac ad-daliadau.


Glan y Don, Bae Colwyn LL29 8AW
Ffôn / Tel: 01492 805486
Ebost / Email: OPCC@nthwales.pnn.police.uk
Glan y Don, Colwyn Bay LL29 8AW
Ffacs / Fax: 01492 805489

4. Adrodd yn ôl i mi, y Panel Heddlu a Throsedd a'r Archwilwyr Allanol am unrhyw wariant anghyfreithlon neu wariant a allai fod yn anghyfreithlon ac adrodd yn ôl os yw'r gwariant yn debygol o fod yn uwch na'r adnoddau sydd ar gael i fodloni'r gwariant hwnnw.

Credaf fod Kate Jackson yn bodloni'r meini prawf yn llawn:

1. Mae Kate yn Gyfrifydd cymwys a chanddi 25 mlynedd o brofiad a hynny o fewn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Mae hi'n gyn Brif Gyfrifydd a Dirprwy Swyddog 151 â Chyngor Swydd Amwythig.
2. Mae gan Kate brofiad o reolaeth ariannol gwasanaethau â chyllideb oddeutu £120m.
3. Profiad o gynhyrchu Datganiad Cyfrifon, Rheolaeth Trysorlys a phob agwedd ar swyddogaeth gyfrifo Awdurdod Lleol.
4. Mae Kate wedi cyflwyno Curriculum Vitae cynhwysfawr sy'n cynnwys tystiolaeth o'i phrofiad gwaith a'i chymwysterau sy'n cefnogi fy argymhelliad i'w phenodi. Rydw i hefyd wedi derbyn tystlythyrau gan gyn Reolwyr Llinell Kate sy'n cadarnhau ei bod hi'n fwy na chymwys ar gyfer y rôl hon.
5. Nid yw Kate yn siarad Cymraeg ond mae hi wedi mynegi ei pharodrwydd i ddysgu ac rwy'n falch o ddweud ei bod eisoes wedi dechrau defnyddio cyfarchion Cymraeg wrth gyfathrebu â'r Swyddfa.

Er mwyn sicrhau bod y broses o benodi Prif Swyddog Cyllid yn gwbl deg fe wnes i sicrhau bod cynnwys y panel yn un cytbwys. Roedd y panel penodi yn cynnwys swyddogion o fy swyddfa, un unigolyn annibynnol ac un asesydd adnoddau dynol. Roedd gan holl aelodau'r panel brofiad o recriwtio swyddogion ar reng uchel.

Cafodd y swydd wag ei hysbysebu ar ddydd Iau 29 Tachwedd gyda dyddiad cau o ddydd Gwener 14 Rhagfyr. O ganlyniad i ddiffyg niferoedd yn ymgeisio, ail hysbysebwyd y swydd ar 7 Chwefror gyda dyddiad cau o 21 Chwefror a chynhaliwyd y cyfweliadau ar ddydd Mawrth 5 Mawrth. Ymddangosodd yr hysbyseb yn y Daily Post, ar wefan AllWalesJobs, gwefan Golwg ac fe'i dosbarthwyd i aelodau'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth drwy eu gwefan. Ymatebodd yr ymgeisydd rwy'n ei hargymell i'r ail hysbyseb yn dilyn ei weld drwy'r dosbarthiad i aelodau Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth.

Cafwyd 5 cais am y swydd a rhoddwyd 5 ar y rhestr fer, cafodd 4 eu cyfweld gan i un dynnu'n ôl cyn diwrnod y cyfweliad. Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i'r ymgeiswyr am y rôl yr oeddent yn ymgeisio amdani a chwestiynau am eu profiad gwaith, cawsant eu sgorio gan y panel ar sail eu hatebion. Canlyniad y broses benodi oedd mai Kate Jackson oedd yr ymgeisydd cryfaf ac mai hi oedd yr ymgeisydd mwyaf addas ar gyfer y swydd.


Glan y Don, Bae Colwyn LL29 8AW
Ffôn / Tel: 01492 805486
Ebost / Email: OPCC@nthwales.pnn.police.uk
Glan y Don, Colwyn Bay LL29 8AW
Ffacs / Fax: 01492 805489

Rwy'n atodi Manyleb yr Unigolyn ar gyfer y swydd hon er gwybodaeth. Gallaf hefyd gadarnhau bod Kate wedi derbyn cliriad meddygol a diogelwch er mwyn gallu cyflawni'r swydd.

Diolch yn fawr.

Yn gywir

Winston Roddick CB QC
Comisiynydd

*amg*

Glan y Don, Bae Colwyn LL29 8AW
Ffôn / Tel: **01492 805486**
Ebost / Email: **OPCC@nthwales.pnn.police.uk**
Glan y Don, Colwyn Bay LL29 8AW
Ffacs / Fax: **01492 805489**

### Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd

# PROFFIL SWYDD

| | | |
|---|---|---|
| **Swydd** | : | Prif Swyddog Cyllid |
| **Wedi'i lleoli yn** | : | Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd,<br>Pencadlys yr Heddlu, Bae Colwyn |
| **Graddfa** | : | Pwynt 62 |
| **Yn atebol i** | : | Y Comisiynydd Heddlu a Throsedd |
| **Cyf. Gwerthuso Swydd** | : | |

**PWRPAS CYFFREDINOL Y SWYDD**

1. I weinyddu materion ariannol y Comisiynydd yn gywir yn unol ag adran 112-124 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (fel y'i newidiwyd), Cod Rheolaeth Ariannol y Swyddfa Gartref a Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, paragraff 6, Atodlen 1.
2. Gweithredu fel Ymgynghorydd Ariannol y Comisiynydd.
3. Bod yn Swyddog â Chyfrifoldeb yn unol ag adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972.
4. Gweithredu mewn rôl gefnogol i'r Prif Weithredwr yn ôl yr angen.

**DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU**

1. Sicrhau bod materion ariannol y Comisiynydd yn cael eu gweinyddu'n gywir a bod rheoliadau ariannol yn cael eu dilyn a'u cadw'n gyfredol.

2. Sicrhau rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian o ran y modd y defnyddir arian cyhoeddus.

3. Sicrhau bod yr arian angenrheidiol ar gyfer rhaglenni a gymeradwywyd ar gael drwy nawdd Llywodraeth Ganolog a Llywodraeth Cymru, y praesept a chyfraniadau ac ad-daliadau eraill.

4. Adrodd yn ôl i'r Comisiynydd, y Panel Heddlu a Throsedd a'r archwiliwr allanol ar unrhyw wariant gan y Comisiynydd neu ei swyddogion sydd, neu a allai fod yn anghyfreithlon.

5. Adrodd yn ôl i'r Comisiynydd, y Panel Heddlu a Throsedd a'r archwiliwr allanol os bydd yn ymddangos fod gwariant yn debygol o fod yn fwy na'r adnoddau ariannol sydd ar gael.

6. Cynghori'r Comisiynydd ynghylch cadernid y gyllideb a digonoldeb y cronfeydd ariannol.

7. Sicrhau y cyflwynir datganiadau o'r cyfrifon i'r Comisiynydd.

8. Sicrhau bod cyfrifon y Prif Gwnstabl yn cael eu derbyn a'u craffu arnynt a sicrhau hefyd y cynhyrchir y cyfrifon grŵp.

9. Cysylltu â'r archwilydd allanol.

10. Cynghori'r Comisiynydd ynghylch y modd y mae'r heddlu yn gweithredu egwyddorion gwerth am arian er mwyn cefnogi'r Comisiynydd i ddal y Prif Gwnstabl yn atebol am reolaeth ariannol effeithiol ac effeithlon; a

11. Rhoi cyngor, mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr, ar ddiogelu asedau, gan gynnwys rheolaeth risg ac yswiriant.

12. Ymgymryd â'r cyfrifoldebau sydd wedi'u dirprwyo i'r Prif Swyddog Ariannol drwy Gynllun Dirprwyo'r Comisiynydd.

13. Mynychu cyfarfodydd y Comisiynydd, yr Heddlu a'r Panel Heddlu a Throsedd ac unrhyw gyfarfodydd eraill yn ôl yr angen.

14. Unrhyw ddyletswyddau eraill a allent fod yn rhesymol angenrheidiol

**BYDDWCH YN DAL SYLW AR:**

1. Datganiad CIPFA ar Rôl y Prif Swyddog Cyllid
2. Cod Ymarfer Rheolaeth Ariannol ar gyfer Gwasanaeth Heddlu Cymru a Lloegr

**NODIADAU**

1. Yn unol ag adran 2(1) Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 mae hon yn swydd dan gyfyngiadau gwleidyddol.

**22 Tachwedd 2012**

EITEM RHAGLEN 7c

# ADRODDIAD BLYNYDDOL
2012/13



SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE **POLICE & CRIME COMMISSIONER** NORTH WALES

## Cynnwys

Cyflwyniad....3
Adran Un: Y Cynllun Heddlu a Throsedd....4
Cynnydd hyd yma....4
Lleihau Trosedd ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol....5
Diogelu pobl a lleihau niwed....5
Darparu Gwasanaeth o Ansawdd sy'n bodloni anghenion ein cymunedau....6
Cynllun Troseddau Cefn Gwlad....7
Darparu Gweithlu medru, trefnus a arweinir yn dda....7
Adran Dau: Cyflawni rôl y Comisiynydd Heddlu a Throsedd....8
Arian a Chyllid....9
Cyllideb yr Heddlu....9
Cronfa'r Comisiynydd 2013/14....9
Cronfa'r Comisiynydd 2014/15....9
Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd....9
Atodiad A – Dosbarthiad Cronfa'r Comisiynydd 2013/14....10

## Cyflwyniad

Cefais f'ethol yn Gomisiynydd Heddlu a Throsedd cyntaf Gogledd Cymru ym mis Tachwedd 2012. Mae rôl y Comisiynydd, sydd wedi disodli Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru, yn rhoi dyletswydd arnaf i ddarparu gwasanaeth heddlu effeithiol ac effeithlon sy'n dangos gwerth am arian, ac, yn bennaf oll, yn gostwng trosedd.

Dyma f'adroddiad blynyddol cyntaf yn unol â gofynion Adran 12 Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol (Y Ddeddf). Er mai dim ond ers chwe mis yr wyf wedi bod yn y swydd, mae'n ofynnol o hyd i mi baratoi adroddiad blynyddol. Am y rheswm mai cyfnod o chwe mis yn unig y rhoddir sylw iddo, bydd yr adroddiad yn amlwg yn fyrrach nag a fydd yn y dyfodol. Bydd yn grynodeb o sut yr wyf wedi cyflawni fy swyddogaethau hyd yma a'r cynnydd yr wyf wedi ei wneud yn ystod y cyfnod hwn o ran diwallu amcanion fy Nghynllun Heddlu a Throsedd.

Fel eich cynrychiolydd etholedig, fi yw eich llais mewn materion plismona. Rwy'n gyfrifol am ddal Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru yn atebol ac am sicrhau bod yr Heddlu'n bodloni anghenion y cymunedau a wasanaethir ganddo. Fel Comisiynydd rwy'n atebol i'r Panel Heddlu a Throsedd sy'n cynnwys 12 cynrychiolydd cymunedol sy'n craffu ar fy ngwaith ac yn fy nal yn atebol.

Fy ngweledigaeth yw Gogledd Cymru lle mae pobl yn teimlo'n saff ac yn ddiogel yn eu cartrefi ac mewn mannau cyhoeddus. Rwyf eisiau gweld gostyngiad arwyddocaol mewn troseddau sy'n seiliedig ar ddioddefwr. Rwy'n credu y bydd gwneud yr heddlu'n fwy gweladwy yn ogystal â mentrau eraill sy'n cael eu cyflwyno ar hyn o bryd yn cynorthwyo i leihau trosedd a gwneud i bobl deimlo'n fwy diogel.

Rwyf wedi amlinellu fy ngweledigaeth yn fy Nghynllun Heddlu a Throsedd. Paratoi'r cynllun fu prif ganolbwynt fy ngwaith dros y chwe mis diwethaf ac fe'i datblygwyd ar ôl ymgynghori â'r Heddlu a sefydliadau partner eraill, grwpiau cymunedol a'r cyhoedd. Mae'n seiliedig ar bedwar prif amcan a fydd yn cynnal gwaith Heddlu Gogledd Cymru dros y pum mlynedd nesaf.

Tasg bwysig arall yn ystod fy misoedd cyntaf yn y swydd oedd trefnu cyllideb yr Heddlu a gosod y praesept treth cyngor ar gyfer 2013/14. Gyda chymeradwyaeth y Panel Heddlu a Throsedd, codais y treth cyngor 3.98% er mwyn talu am 51 swyddog heddlu ychwanegol.

Dros y misoedd a'r blynyddoedd i ddod byddaf yn adeiladu ar y sylfeini a osodwyd yn ystod fy chwe mis cyntaf yn y swydd. Byddaf yn parhau i weithio ochr yn ochr â'r heddlu, partneriaid a chymunedau Gogledd Cymru tuag at wireddu amcanion y cynllun, sef sicrhau diogelwch yn y cartref ac mewn mannau cyhoeddus a phlismona gweladwy.

Rwy'n ddiolchgar i'r Prif Gwnstabl a'i staff am y gefnogaeth ragorol y maent wedi'i rhoi i mi yn ystod yr ychydig fisoedd heriol cyntaf yn fy swydd, felly hefyd i'm staff am eu cefnogaeth gref ac effeithiol. Yr wyf wedi ymddangos gerbron y Panel Heddlu a Throsedd ar nifer o achlysuron yn ystod y chwe mis agoriadol hwn a dros y cyfnod hwn mae'r aelodau wedi craffu ar fy nghyllideb, fy Nghynllun Heddlu a Throsedd ac ar benodiadau statudol fy swyddfa. Rwy'n ddiolchgar iddynt am eu beirniadaeth adeiladol, eu hawgrymiadau a'u hanogaeth. Rhaid dweud fy mod wedi bod yn ffodus iawn o ran y bobl yr wyf yn gweithio â nhw.

**Winston Roddick CB QC**
**Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**

## Adran Un: Y Cynllun Heddlu a Throsedd

Fel y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, arna' i y mae'r cyfrifoldeb statudol am gyfeiriad strategol plismona yng Ngogledd Cymru a'r Prif Gwnstabl sy'n gyfrifol am faterion gweithredol.

Mae'r cyfeiriad strategol hwnnw wedi'i amlinellu yn y Cynllun Heddlu a Throsedd a gyhoeddais ym mis Mawrth eleni. Bydd y cynllun yn cael ei adolygu a'i addasu'n rheolaidd yng ngoleuni materion fydd yn dod i'r amlwg a barn rhanddeiliaid a'r cyhoedd.

Mae'r Cynllun yn cynnwys pedwar prif amcan allweddol sy'n darparu fframwaith ar gyfer datblygu a gwella'r Heddlu mewn ffordd fydd yn lleihau trosedd ac yn sicrhau bod pobl yn ddiogel yn eu cartrefi ac yn saff mewn mannau cyhoeddus.

Yr Amcanion Heddlu a Throsedd yw:

1. Lleihau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol
2. Amddiffyn pobl a lleihau niwed.
3. Darparu Gwasanaeth o Ansawdd sy'n bodloni anghenion ein cymunedau.
4. Sicrhau gweithlu trefnus, medrus a arweinir yn dda

Mae'r cynllun yn amlygu nifer o faterion allweddol sy'n berthnasol i bob rhan o Ogledd Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Cam-drin domestig ac ymosodiadau rhywiol
- Camddefnyddio sylweddau
- Troseddau Cefn Gwlad
- Diogelwch y ffyrdd

Mae'r Prif Gwnstabl wedi llunio cynllun gweithredu sy'n rhoi manylion ynghylch sut y bydd Heddlu Gogledd Cymru'n mynd i'r afael â'r materion hyn a sut y maent yn bwriadu diwallu'r pedwar amcan allweddol. Drwy gyfarfodydd ac adroddiadau rheolaidd, gan gynnwys cyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol Strategol, byddaf yn mesur ac yn monitro perfformiad yr heddlu yn erbyn y cynllun gweithredu hwnnw.

## Cynnydd hyd yma

Er na chafodd y cynllun ei fabwysiadu'n ffurfiol tan yn eithaf diweddar, mae nifer o fentrau blaengar a phwysig eisoes wedi'u datblygu ac rydym wedi cynnwys crynodeb o rywfaint o'r gweithgaredd yr ymgymerwyd ag o hyd yma yn erbyn pob un o'r amcanion heddlu a throsedd.

Dangosodd perfformiad 2012/13 ostyngiadau sylweddol yn y rhan fwyaf o fathau o drosedd, gyda 4,381 yn llai o bobl wedi dioddef troseddau seiliedig ar ddioddefwr (gostyngiad o 11.6%) a 3,550 yn llai o ddigwyddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol (gostyngiad o 11.6%).

Mae'r Prif Gwnstabl a'r Heddlu wedi gweithio'n ddiflino i leihau trosedd yn ystod 2012/13 ac rwy'n hyderu y gallwn ostwng trosedd fwy fyth eleni drwy ganolbwyntio ar ddulliau atal trosedd.

## Lleihau Trosedd ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Dengys ffigyrau perfformiad diwedd blwyddyn 2012/13 bod:

- Troseddau seiliedig ar ddioddefwr wedi gostwng 11.6% gyda **4,381 yn llai o ddioddefwyr**
- Trais gydag anaf wedi gostwng 7% gyda **314 yn llai o ddioddefwyr**
- Trais heb anaf wedi gostwng 5% gyda **217 yn llai o ddioddefwyr**
- Byrgleriaethau o gartrefi wedi gostwng 16.2% gyda **304 yn llai o ddioddefwyr**
- Byrgleriaethau heb fod o gartrefi wedi gostwng 14.3% gyda **502 yn llai o ddioddefwyr**
- Ysbeiliad wedi gostwng 8.8% gyda **14 yn llai o ddioddefwyr**
- Dwyn cerbydau wedi gostwng 17.3% gyda **123 yn llai o ddioddefwyr**
- Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (YG) wedi gostwng 11.6%, sef gostyngiad o **3,550 yn y nifer o ddigwyddiadau**

Credaf nad oes dim mor effeithiol o ran atal a lleihau trosedd na phresenoldeb gweladwy'r heddlu. Rwyf wedi addo y byddaf yn gweithio gyda'r heddlu i gynyddu gwelededd swyddogion gyda'r nod o atal trosedd a rhoi tawelwch meddwl i'r cyhoedd. Bydd yr ychwanegiad o 51 swyddog rheng flaen yn cyfrannu at hyn.

Mae'r Prif Gwnstabl wedi dechrau gweithredu rhaglen lleihau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yr heddlu, sy'n canolbwyntio ar leihau troseddau seiliedig ar ddioddefwyr ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan adeiladu ar y gostyngiadau mewn troseddau a gafwyd yn 2012/13. Mae'r Heddlu hefyd wrthi'n datblygu plismona seiliedig ar dystiolaeth ymhellach er mwyn sicrhau fod gweithgaredd plismona wedi'i dargedu at y meysydd cywir a bod mentrau sy'n effeithiol o ran lleihau trosedd yn cael eu cydnabod ac y gwneir defnydd ehangach ohonynt.

Mae'r Heddlu'n edrych ar ei ddulliau o ymateb i ddigwyddiadau er mwyn sicrhau ei fod yn ymateb mewn modd cymesur a phriodol. Bydd hyn yn adeiladu ymhellach ar fenter beilot sydd ar waith yn Ne Sir y Fflint.

Rwyf wedi derbyn adborth cadarnhaol ynghylch gwaith partneriaeth yng Ngogledd Cymru, fodd bynnag mae hwn yn faes y gallwn ei ddatblygu ymhellach, ynghyd â datblygu cyfleoedd i gydweithio mwy â'n partneriaid lleol. I'r perwyl hwnnw bydd rôl y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd yn cefnogi fy nghyfraniad i tuag at ddatblygiad a darpariaeth gwaith partneriaeth. Mae'r swydd wag yn cael ei hysbysebu ar hyn o bryd.

## Diogelu pobl a lleihau niwed

Gyda fy nghefnogaeth lawn, mae Heddlu Gogledd Cymru yn sefydlu tîm dynodedig i ymchwilio i drais rhywiol a throseddau rhyw difrifol. (Tîm Amethyst). Bydd Tîm Amethyst, a fydd yn darparu cefnogaeth i ddioddefwyr trais a throseddau rhyw difrifol mewn modd sensitif a phriodol a bydd yn cynnwys Ditectif Brif Arolygydd, Ditectif Arolygydd, 3 Ditectif Ringyll, 12 Ditectif Gwnstabl a chwe swyddog heddlu wedi'u hyfforddi'n arbennig. Mae'r gwaith o sefydlu'r tîm ar y gweill ac un o'r amcanion fydd sicrhau y bydd modd darparu cefnogaeth arbenigol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Drwy barhau i gydweithio â phartneriaid megis Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a grwpiau cymorth i ddioddefwyr, mae'r Heddlu'n gweithio tuag at wella ansawdd a chysondeb ymateb yr heddlu i'r troseddau hyn fwy fyth.

Yn sgil yr ymchwiliad i honiadau diweddar o gamdriniaeth hanesyddol yn y system ofal yng Ngogledd Cymru (Ymgyrch Pallial) daeth saith deg chwech o achwynyddion newydd ymlaen. Casgliad yr ymchwiliad hyd yma yw “nad oes unrhyw dystiolaeth wedi dod i’r amlwg o gamymddygiad systemig na sefydliadol ar ran swyddogion na staff Heddlu Gogledd Cymru mewn perthynas â'r mater hwn.”

Fe wnes i gefnogi datganiadau'r Prif Gwnstabl ynghylch y casgliadau a’i weithredoedd mewn perthynas â’r ymchwiliad. Mae safonau ymchwilio a’r gefnogaeth a roddir i ddioddefwyr wedi gwella’n sylweddol yn y blynyddoedd diweddar, a bydd y tîm dynodedig yn gwella’r gallu a’r capasiti yng Ngogledd Cymru i ddelio â'r troseddau hyn fel mater o flaenoriaeth.

*“Dydy hi byth yn rhy hwyr i riportio camdriniaeth".*
Mark Polin, Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru

Mae rheoli’r troseddwyr mwyaf peryglus a threisgar yn hanfodol ar gyfer diogelwch pobl Gogledd Cymru ac mae’n rhywbeth na ellid ei ddarparu heb drefniadau aml-asiantaeth diogelu’r cyhoedd (MAPPA). Mae’r Prif Gwnstabl yn gweithio â phartneriaid i ddatblygu canolfan ddiogelu aml-asiantaeth. Bydd y peilot yn ceisio gwella gweithio traws sector er mwyn darparu gwell deilliannau i aelodau mwyaf bregus ein cymunedau.

Rwyf wedi penderfynu parhau i roi cefnogaeth ariannol i raglen sy'n darparu cefnogaeth i droseddwyr â phroblemau camddefnyddio sylweddau sy’n cyfrannu tuag at eu hymddygiad troseddol. Mae’r gwaith yn ymwneud â’r rhaglen ‘profi ar ôl arestio’ a'r trefniadau atgyfeirio ar ôl arestio ar gyfer unigolion â phroblemau camddefnyddio sylweddau.

## Darparu Gwasanaeth o Ansawdd sy’n bodloni anghenion ein cymunedau

Mae’n bwysig gwrando ar farn pobl Gogledd Cymru a sicrhau bod eu safbwyntiau’n cael eu cynrychioli mewn materion plismona. Rwyf wedi ymrwymo i ymgysylltiad agored a thryloyw a chyfathrebu dwy ffordd rhyngof i a'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr, yn ogystal ag â'r Heddlu, partneriaid statudol a sefydliadau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol eraill.

Mae ymgysylltiad cymunedol wedi bod yn rhan bwysig o ddatblygu’r Cynllun Heddlu a Throsedd. Ystyriwyd adborth gan amrediad eang o sefydliadau ac unigolion yn ystod y broses o adnabod yr amcanion a’r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu. Bydd gwrando ar safbwyntiau pobl ynghylch materion cysylltiedig â phlismona a throseddu yng Ngogledd Cymru yn parhau i fod yn hollbwysig o ran fy ngalluogi i gadw golwg ar effaith y Cynllun.

Dros y misoedd nesaf byddaf yn cyhoeddi’r Cynllun Ymgysylltiad ac yn ffurfioli trefniadau gyda'r Heddlu ar gyfer cyd ymgysylltu â'r cyhoedd a phartneriaid allweddol eraill sy'n gweithio ym maes diogelwch cymunedol neu gyfiawnder troseddol. Bydd hyn yn gwella fy ngallu i wrando ac ymateb i gymunedau Gogledd Cymru.

Fel rhan o’r gwaith hwn mae’r Heddlu hefyd wedi dechrau edrych ar y posibilrwydd y gellid defnyddio swyddogion cefnogi cymuned yr heddlu mewn cyd-destun ‘tasgio cyfranogol’. Mae'r gwaith hwn ar y camau ymchwil cychwynnol ar hyn o bryd ond mewn egwyddor rydym yn canolbwyntio ar y posibilrwydd y gallai cymunedau ddylanwadu ar y ffordd y bydd Swyddogion Cefnogi Cymuned yn defnyddio’u hamser. Byddwn yn adrodd yn ôl yn 2014 ar ganlyniadau’r astudiaeth dichonoldeb arloesol hwn a fydd yn edrych ar y posibilrwydd o gynnwys cymunedau yn y gwaith o sicrhau fod swyddogion cefnogi cymuned yn canolbwyntio ar feysydd sydd yn flaenoriaeth i bobl leol.

### Cynllun Troseddau Cefn Gwlad

Yn dilyn cyfarfodydd â chymunedau gwledig ledled Gogledd Cymru daeth i'r amlwg fod troseddau cefn gwlad yn fater sy'n peri cryn bryder. Gofynnais felly i'r Heddlu greu cynllun gweithredol i fynd i'r afael â'r broblem. Mae Cynllun Troseddau Cefn Gwlad Gogledd Cymru'n cael ei ddatblygu mewn partneriaeth agos ag undebau ffermio Cymru, gan gynnwys y Ffederasiwn Ffermwyr Ifanc, a chaiff ei lansio' n swyddogol yn yr haf.

Wrth ddatblygu'r cynllun, byddwn yn rhoi sylw i'r materion isod:

- Gwella mesurau atal trosedd a diogelwch
- Lleihau achosion o ddwyn offer, disel, metel sgrap a cherbydau mewn ardaloedd gwledig
- Lleihau achosion o ddwyn anifeiliaid
- Lleihau troseddau bywyd gwyllt ac amgylcheddol
- Sicrhau presenoldeb plismona mewn marchnadoedd a digwyddiadau gwledig
- Lleihau arson
- Cyfathrebu'n effeithiol â chymunedau gwledig drwy ddefnyddio negeseuon testun ac e-bost.
- Delio â phroblemau sy'n dechrau dod i'r amlwg er mwyn cynnal diogelwch y cyhoedd.

O dan y Cynllun Troseddau Cefn Gwlad, bydd tîm o swyddogion yn cael eu neilltuo'n arbennig i fynd i'r afael â throseddau mewn ardaloedd gwledig. Eisoes, fe enwebwyd chwe SCCH ar gyfer y tîm a bydd swyddi newydd sbon ar gyfer Swyddogion Troseddau Cefn Gwlad yn cael eu hysbysebu yn y dyfodol agos.

## Darparu Gweithlu medru, trefnus a arweinir yn dda

Cynyddais y praesept treth cyngor 3.98% yn 2013/14 er mwyn atgyfnerthu plismona rheng flaen. Mae'r cynnydd hwn wedi lleddfu effeithiau toriadau'r llywodraeth ganolog ac wedi galluogi buddsoddiad mewn 51 swydd cwnstabl ychwanegol. Bydd yr heddlu'n recriwtio i'r swyddi newydd hyn dros y misoedd i ddod. Bydd 37 o'r 51 yn cael eu defnyddio fel cwnstabliaid patrôl o fewn plismona lleol.

Mae'r Prif Gwnstabl a minnau hefyd wedi penderfynu gosod y cyflog cychwynnol ar gyfer swyddogion newydd ar £22,000 y flwyddyn gan ein bod am ddenu'r ymgeiswyr gorau posibl. Drwy ymuno â'r heddlu gall pobl wasanaethu eu cymunedau ac mae'r heddlu hefyd yn cynnig cyfleoedd gyrfa gwych. Mae'n rhaid i bob swyddog gychwyn ar reng cwnstabl, felly er mwyn adeiladu'r heddlu gorau ar gyfer y dyfodol mae angen i ni allu cystadlu â chyflogwyr eraill a denu'r ymgeiswyr gorau posibl.

Un rhaglen a gomisiynwyd yw edrych ar sut y gall technoleg data symudol gynorthwyo swyddogion a staff rheng flaen yn well a'u galluogi i dreulio rhagor o amser gyda'r cyhoedd ac osgoi siwrneiau diangen i ddefnyddio offer TG mewn gorsafoedd.

Ar hyn o bryd mae'r Prif Gwnstabl yn cynnal 20 sioe deithiol ar draws Gogledd Cymru er mwyn gallu cyfathrebu wyneb yn wyneb â swyddogion a staff a cheisio adborth ganddynt a fydd yn ei gynorthwyo i wella'r gwasanaeth yn ogystal â sôn am yr amcanion o fewn y cynllun heddlu a throsedd.

## Adran Dau: Cyflawni rôl y Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Fy mhrif swyddogaethau yw:

- sicrhau heddlu effeithiol ac effeithlon ar gyfer Gogledd Cymru
- dal y Prif Gwnstabl yn atebol am y modd y mae'n arfer ei swyddogaethau
- dwyn partneriaid diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol ynghyd
- cydweithio â'r comisiynwyr heddlu a throsedd eraill a llunio a gweithredu strategaethau ar draws ardaloedd yr heddluoedd

Rwyf wedi ymdrechu i berfformio'r cyntaf o'r swyddogaethau hyn drwy weithredu'r strategaeth a nodais yn fy Nghynllun Heddlu a Throsedd ac, yn benodol, drwy gyflawni'r pedwar amcan heddlu a throsedd, sef lleihau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, diogelu pobl a lleihau niwed, darparu gwasanaeth o ansawdd sy'n bodloni anghenion ein cymunedau a hyrwyddo gweithlu trefnus, medrus a arweinir yn dda. Er ei bod yn rhy gynnar ar hyn o bryd i ddweud a wyf wedi llwyddo i gyflawni'r swyddogaeth hon ai peidio, mae arwyddion fy mod yn llwyddo. Rwy'n derbyn fod sawl ffordd o fesur effeithiolrwydd, ond mae'n debyg mai'r gostyngiad sylweddol mewn trosedd yw'r dangosydd gorau.

Y prif gyfrwng yr wyf yn ei ddefnyddio i ddal y Prif Gwnstabl yn atebol yw'r Bwrdd Gweithredol Strategol yr wyf yn ei gadeirio ac y mae'r Prif Gwnstabl a'i Uwch Swyddogion yn aelodau ohono. Mae'r Bwrdd yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn y cyfarfodydd byddaf yn derbyn adroddiadau ar sawl agwedd ar swyddogaethau'r Prif Gwnstabl gan gynnwys yn benodol ystadegau trosedd ar gyfer y cyfnod yn union cyn y cyfarfod, y crynodeb misol o berfformiad sy'n cynnwys gwybodaeth leol am berfformiad, canlyniadau arolygon swyddogion a staff ac arolygon o fodlonrwydd y cyhoedd. Nid yw f'ymgysylltiad â'r Prif Gwnstabl a'i uwch aelodau o staff yn gyfyngedig i gyfarfodydd yn y Bwrdd Strategol Gweithredol – mae ymgysylltiad parhaus ar ddarpariaeth yn erbyn yr amcanion cytunedig a chyhoeddir gwybodaeth ar gyfnodau rheolaidd. Mae'r deunydd a gyhoeddir yn cynnwys f'arsylwadau a'm sylwadau i, a gweithredoedd cytunedig yn deillio o'r crynodebau o berfformiad.

Yn atgyfnerthu'r swyddogaeth oruchwyliol hon mae fy nghyfarfodydd rheolaidd ag Arolygwyr Heddluoedd ei Mawrhydi a phennaeth Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu a'u hadroddiadau ar berfformiad Heddlu Gogledd Cymru.

Elfen arall sy'n atgyfnerthu'r swyddogaeth oruchwyliol yw'r Panel Archwilio a sefydlais yn ddiweddar ar y cyd â'r Prif Gwnstabl - mae'r Panel yn gyfrifol am gadw llygad ar berfformiad y Prif Gwnstabl yn ogystal ag ar fy mherfformiad i.

Mae cydweithio â'r comisiynwyr heddlu a throsedd eraill a llunio a gweithredu strategaethau ar draws ardaloedd yr heddluoedd yn swyddogaeth bwysig arall o fewn y tirlun llywodraethu newydd ac y cyfrannu tuag at ddarparu'r Gofyniad Plismona Strategol. Rwyf wedi ymdrechu i gyflawni'r swyddogaeth bwysig hon drwy gyfarfodydd rheolaidd gyda Chomisiynwyr eraill Cymru a'u Prif Gwnstabliaid er mwyn trafod buddiannau cyffredin a materion trawsffiniol yn benodol. Y mae hefyd gynlluniau yn eu lle i archwilio cyfleoedd pellach i gydweithio rhwng Heddlu Gogledd Cymru a Heddlu Swydd Gaer yn y dyfodol. Yr wyf yn cyfarfod yn rheolaidd â chomisiynwyr Gogledd Orllewin Lloegr i drafod materion trawsffiniol a materion cyffredin eraill. Mae'r gwaith cydweithio rhwng Heddlu Gogledd Cymru a heddluoedd Gogledd Orllewin Lloegr yn arbennig o bwysig i blismona yng Ngogledd Cymru gan fod ein daearyddiaeth yn golygu ein bod yn rhannu blaenoriaethau ar gyfer mynd i'r afael â throseddau difrifol a threfnedig, yn ogystal â darparu cydweithredu gweithredol ar gyfer gwasanaeth yr heddlu.

## Arian a Chyllid

## Cyllideb yr Heddlu

Rwy'n gyfrifol am bennu'r arian fydd ar gael i'r Prif Gwnstabl i'w alluogi i ddarparu plismona yng Ngogledd Cymru. Clustnodwyd cyllideb net o £141 miliwn ar gyfer 2013/14

Daw 56% o gyllid yr heddlu o'r grant plismona a geir gan y Swyddfa Gartref a darperir 44% gan drethdalwyr lleol.

## Cronfa'r Comisiynydd 2013/14

Mae Deddf yr Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn fy ngalluogi i ddyfarnu grantiau i bartneriaid, sefydliadau cyhoeddus neu grwpiau gwirfoddol fydd yn gallu cynnal amcanion a nodau'r Cynllun Heddlu a Throsedd.

Mae'r Swyddfa Gartref wedi cadarnhau mai Cronfa'r Comisiynydd yn 2013/14 fydd £1,379,000 (gostyngiad o £174,734 o gymharu â 2012/13), Mae Cronfa'r Comisiynydd yn cynnwys ffynonellau nawdd a oedd yn y gorffennol wedi'u neilltuo gan gynnwys arian y Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau, Grant Profion Cyffuriau DIP a nawdd atal troseddau a chamddefnyddio sylweddau ymysg yr ifanc).

Yr wyf wedi penderfynu cynnal y *status quo* yn y flwyddyn drawsnewidiol (2013/14) er mwyn cefnogi partneriaid a darparwyr gwasanaeth wrth iddynt baratoi ar gyfer newidiadau. Gellir gweld dyraniad y nawdd yn Atodiad A. Byddaf yn rhoi diweddariad ar ganlyniadau'r mentrau hyn yn f'adroddiad blynyddol ar gyfer 2013/14 ac yn eu defnyddio wrth ystyried yr adolygiad o wasanaethau a gomisiynir.

## Cronfa'r Comisiynydd 2014/15

Drwy gydol y flwyddyn hon byddaf yn adolygu'r rhaglenni a noddir ar hyn o bryd. Yr wyf wedi penderfynu y bydd o leiaf 5% o'r gronfa'n cael ei defnyddio i noddi prosiectau cymunedol a phrosiectau sector gwirfoddol yn 2014/15 er mwyn cefnogi gweithgaredd atal trosedd a diogelwch cymunedol ar draws Gogledd Cymru.

Byddaf yn gweithio drwy Fwrdd Cymunedau Diogelach Gogledd Cymru i ddatblygu rhaglen gomisiynu fydd yn cynnal ymdrechion lleihau trosedd ledled yr ardal.

## Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Rwyf wedi penderfynu gosod cyllideb flynyddol o £731,174.00 ar gyfer 2013/14, sef yr un lefel â chyllideb Awdurdod yr Heddlu yn ystod ei dymor olaf. Mae hyn yn cyfateb i 0.5% o'r gyllideb gyfan ar gyfer plismona yng Ngogledd Cymru. Ar hyn o bryd mae gennym chwe aelod o staff yn y swyddfa ac rydym yn cynllunio ar gyfer lefel staffio o ddeg (mae tair o'r swyddi'n rhai rhan amser ar hyn o bryd).

## Atodiad A – Dosbarthiad Cronfa'r Comisiynydd 2013/14

Ers mis Ebrill 2013 mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am y gronfa Diogelwch Cymunedol. Mae Partneriaethau Diogelwch Cymunedol wedi penderfynu ar ddosbarthiad yr arian yn eu hardal ar gyfer cyllid sydd wedi'i ddyrannu i bob ardal partneriaeth. Mae'r gronfa wedi'i dyrannu fel â ganlyn:

| Derbynnydd | Diben | Swm |
|---|---|---|
| **Partneriaeth Diogelwch Ynys Môn a Gwynedd** | Cydlynydd Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (Gwynedd): | £21,000 |
| | Gofal a Thrwsio Gwynedd (gosod offer gwella diogelwch ar gyfer pobl sydd â risg uchel o ddioddef Trais Domestig ac anfon Teleofal mewn achosion o Drais Domestig (risg uchel MARAC) | £10,000 |
| **Cyfanswm: £62, 970.31** | TCC *Street Hawk* y gellir ei adleoli a thaliad rhent Teleofal Trais Domestig (Gwynedd) | £4,797.31 |
| | Cost gosod a rhent, Teleofal mewn achosion Trais Domestig (risg uchel MARAC) (Ynys Môn): | £1,055.44 |
| | Swyddog Lleihau YG (Ynys Môn): | £11,117.56 |
| | Ymgynghorydd Trais Domestig Annibynnol (IDVA) (Ynys Môn): | £15,000 |
| **Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Conwy a Sir Ddinbych** | Swyddog Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ar y cyd Conwy a Sir Ddinbych | £24,000 |
| | *Prosiectau Blaenoriaethau Lleol:* | |
| **Cyfanswm: £75,655.82** | Glanhau graffiti sarhaus | £6,000 |
| | Cynnal a chadw giât llwybr | £9,000 |
| | TCC | £10,000 |
| | Arwyddion dim galwyr digroeso | £4,000 |
| | Prosiect Cartrefi Diogelach | £10,000 |
| | Gwarchod y Gymdogaeth | £4,655.82 |
| | Gweithiwr Allgymorth Cydraddoldeb Hil | £8,000 |
| **Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir y Fflint** | Ymgynghorydd Trais Domestig Annibynnol (IDVA) | £8,875.00 |
| | Cydlynydd Atal Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (YG) Sir y Fflint | £16,170.25 |
| **Cyfanswm: £44,126.50** | Swydd Prif Swyddog Gwarchod y Gymdogaeth | £19,081.25 |
| **Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Wrecsam** | Cydlynu Atal Trais Domestig a Thrais Rhywiol ac Eiriolwyr Trais Domestig Annibynnol | £15,000 |
| | Ymgyrchoedd Tawelu Meddwl a Chyfathrebiadau | £8,000 |

| Derbynnydd | Diben | Swm |
|---|---|---|
| **Cyfanswm: £49,127.56** | Datblygu a Chyfathrebiadau Cynlluniau Gwarchod | £12,585.56 |
| | Prosiect Gwyliadwriaeth TCC | £9,000 |
| | Gwella Diogelwch | £4,542 |
| **Gwasanaeth Cyfiawnder Gwynedd ac Ynys Môn**<br><br>**Cyfanswm: £16,464** | Cyfraniad tuag at gyflog y swydd Gweithiwr Cymdeithasol Atal (ariennir ar y cyd o'r grant BCT) | £10,000 |
| | Cyfraniad tuag at gyflog y swydd Nyrs Camddefnyddio Sylweddau (ariennir ar y cyd o'r grant BCT) | £6,464 |
| **Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Conwy a Sir Ddinbych**<br><br>**Cyfanswm: £20,384** | Cyfraniad tuag at gyflog y Swyddog Camddefnyddio Sylweddau (ariennir ar y cyd gan y SCT) | £20,384 |
| **Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Wrecsam**<br><br>**Cyfanswm: £15,029** | Cyfraniad tuag at gost Gweithiwr Atal, Cyfiawnder Troseddol (ariennir ar y cyd gan y SCT) | £15,029 |
| **Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Wrecsam**<br><br>**Cyfanswm: £19,695** | Cyfraniad tuag at raglen atal blwyddyn naw | £19,695 |
| **Rhaglen Ymyrraeth Cyffuriau Gogledd Cymru (DIP)**<br><br>**Cyfanswm: £892,662.59** | Gwasanaethau Ymyrraeth Cyffuriau ac Atgyfeirio ar ôl Arestio | £650,000 |
| | Presgripsiynu ar ôl Carchar | £148,160 |
| | Tîm Rheoli Rhanbarthol | £106,000 |
| | Ystâd | £52,500 |
| | Trwydded System TG | £2,400 |
| | *Cyfanswm cost y rhaglen: £959,060.00 (£66,397.41 o ffynonellau ariannu eraill)* | |
| **Heddlu Gogledd Cymru**<br><br>**Cyfanswm: £182,825** | Cyfraniad tuag at 'Raglen Profi am Gyffuriau' i dalu am ran o gostau staffio'r rhai hynny sy'n rhoi profion cyffuriau yn y ddalfa. | £182,825 |

**Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**

Glan y Don, Bae Colwyn LL29 8AW

Ffon **01492 805486** Ffacs **01492 805489**

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| **DYDDIAD:** | 4 Mehefin 2013 |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Ken Finch – Cyfarwyddwr Strategol (Democratiaeth, Rheoleiddio a Chefnogi) - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| **TESTUN:** | Trefn Gwyno |

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1 Cymeradwyo'r Drefn Gwyno ddrafft ar gyfer Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

**2. CRYNODEB GWEITHREDOL**

2.1 Mae gan Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru rôl statudol wrth drin a phennu cwynion penodol a wneir yn erbyn Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

2.2 Mae'r adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth i ddirprwyo cyfrifoldebau penodol i Gyfarwyddwr Strategol (Democratiaeth, Rheoleiddio a Chefnogi) yr Awdurdod Cynnal mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd ac Aelod Cyfetholedig Annibynnol Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

2.3 Ymgynghorir â Phrif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru hefyd ar y strategaeth ar gyfer pennu a gaiff cwynion eu hystyried gan y Panel, Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru neu a gânt eu cyfeirio at Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu.

2.4 Mae Atodiad 1 yr adroddiad yn egluro'r dull arfaethedig ar gyfer gweithredu'r Drefn Gwyno.

## 3. ARGYMHELLIAD / DEWIS

3.1 Cymeradwyo'r Drefn Gwyno a bod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn dirprwyo gwaith rheoli a datrys cwynion i Gyfarwyddwr Strategol (Democratiaeth, Rheoleiddio a Chefnogi) yr Awdurdod Cynnal, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd ac Aelod Annibynnol o'r Panel.

## 4. GWYBODAETH GEFNDIR

4.1 Mae gan Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru gyfrifoldebau statudol o ran trin a phennu cwynion penodol a wneir yn erbyn Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd. Gofynnir am gymeradwyaeth gan y Panel i ddirprwyo'i swyddogaethau i'r Cyfarwyddwr Strategol (Democratiaeth, Rheoleiddio a Chefnogi) yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (Awdurdod Cynnal Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru). Rhaid iddo ymgynghori â'r Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd ac un Aelod Annibynnol (os yw ar gael) i bennu'r mathau o gwynion a geir, a'r strategaeth ar gyfer rheoli cwynion i'w datrys yn lleol a dull terfynol y Panel o ddatrys cwynion.

4.2 Mae 3 gwahanol gategori o gwynion:

4.3 Cwyn - cwyn gyffredinol am Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru neu Ddirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd nad yw'n Fater Ymddygiad nac yn Gwyn Ddifrifol neu sy'n gŵyn a gyfeirir at Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru gan Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu neu gan heddlu. Mae Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn gyfrifol am ddatrys y cwynion hyn yn anffurfiol.

4.4 Mater Ymddygiad – mater lle mae arwydd (p'un a yw o amgylchiadau neu fel arall) bod Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a/neu Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd wedi cyflawni trosedd. Gall Materion Ymddygiad godi heb i gŵyn gael ei gwneud (er enghraifft, straeon yn y wasg). Rhaid i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru roi gwybod i Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu am Faterion Ymddygiad. Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu sy'n gyfrifol am ystyried pob Mater Ymddygiad.

4.5 Cwyn Ddifrifol – cwyn am ymddygiad Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru neu Ddirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd sy'n cynnwys neu sy'n ymwneud â chomisiynu trosedd, neu sy'n ymddangos

fel pe bai'n cynnwys neu'n ymwneud â hynny. Rhaid i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru roi gwybod i Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu am Gwynion Difrifol. Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu sy'n gyfrifol am ystyried pob Cwyn Ddifrifol.

**5. YMGYNGHORI**

5.1 Ymgynghorwyd â Chadeirydd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

**6. GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU**

6.1 Mae'r Swyddfa Gartref yn darparu cyllid i'r Awdurdod Lleol sy'n Cynnal, ar gyfer gweinyddu Panel Heddlu a Throsedd.

**7. RISG**

7.1 Ni fydd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau statudol heb fod trefn gwyno effeithiol ar waith.

**8. CYHOEDDI**

8.1 Bydd y Drefn Gwyno a chofrestr o gwynion a gofnodwyd yn cael eu cyhoeddi ar wefan Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

**9. RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD**

9.1 Sefydlu trefn gwyno er mwyn i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

**TREFN GWYNO: COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU A DIRPRWY GOMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r nodyn trefniadol hwn yn rhoi manylion y drefn gwyno mewn perthynas â Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (PCC) a'r Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (DPCC). Mae'r nodyn yn seiliedig ar ddarpariaethau Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, Rheoliadau Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Cwynion a Chamymddwyn) 2011 a Rheoliadau Paneli Heddlu a Throsedd (Defnyddio Deddfiadau Awdurdodau Lleol) 2012.

## 2. Rôl Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

2.1 Mae gan Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ("y Panel") gyfrifoldebau statudol o ran trin a phenderfynu ar gwynion penodol a wnaed yn erbyn y PCC a DPCC. Mae'r Panel wedi dirprwyo ei swyddogaethau i'r Cyfarwyddwr Strategol (Democratiaeth, Rheoleiddio a Chefnogi) ("y Cyfarwyddwr Strategol") yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (Awdurdod Lletyol Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru) ac mae'n rhaid iddo ymgynghori â'r Cadeirydd, Is-gadeirydd ac un Aelod Annibynnol (os oes un ar gael) o Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru wrth benderfynu ar y math o gwynion a dderbyniwyd a'r strategaeth ar gyfer rheoli cwynion i'w datrys yn lleol a chwynion i'r Panel wneud penderfyniad terfynol arnynt.

## 3 Trosolwg

3.1 Yn ymarferol, y Cyfarwyddwr Strategol (Democratiaeth, Rheoleiddio a Chefnogi) yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fydd yn gwneud penderfyniadau ynghylch rheoli a datrys cwynion mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd. Ymgynghorir â Phrif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (OPCC) ar y strategaeth ar gyfer penderfynu a fydd cwynion yn cael eu hystyried gan y Panel, yr OPCC neu eu cyfeirio i Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (IPCC).

3.2 Mae Atodiad 1 yn darparu siart llif o'r broses gwyno.

3.3 I gael rhagor o wybodaeth am y drefn gwyno, cysylltwch â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar 01492 576061 neu e-bostiwch pcc.complaints@conwy.gov.uk

4. **Terfynau Amser**

4.1 Bydd y Cyfarwyddwr Strategol (Democratiaeth, Rheoleiddio a Chefnogi) yn cydnabod derbyn cwyn o fewn 5 diwrnod gwaith a bydd yn ceisio datrys cwyn gyffredinol heb fod yn Fater Ymddygiad neu Gwyn Ddifrifol o fewn 40 diwrnod gwaith.

4.2 Mae gan yr IPCC terfynau amser eu hunain ar gyfer delio â Materion Ymddygiad a Chwynion Difrifol.

**5. Mathau o Gŵynion**

Mae yna 3 categori gwahanol o gwynion:

5.1 Cwyn - cwyn gyffredinol am y PCC neu DPCC heb fod yn Fater Ymddygiad neu’n Gŵyn Ddifrifol, neu’n gŵyn sy'n cael ei chyfeirio at y Panel gan Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu neu un o'r heddluoedd. Mae'r Panel yn gyfrifol am ddatrys y cwynion hyn yn anffurfiol.

5.2 Mater Ymddygiad - mater lle mae arwydd (p'un ai o'r amgylchiadau neu fel arall) efallai bod y PCC a/ neu DPCC wedi cyflawni trosedd. Gall Materion Ymddygiad godi heb i gŵyn gael ei gwneud (er enghraifft, straeon yn y wasg). Rhaid i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru hysbysu'r IPCC am Faterion Ymddygiad. Mae'r IPCC yn gyfrifol am ystyried yr holl Faterion Ymddygiad.

5.3 Cwyn ddifrifol - cwyn am ymddygiad y PCC neu DPCC, neu sy'n golygu neu'n cynnwys, neu'n ymddangos i olygu neu gynnwys comisiynu tramgwydd troseddol. Rhaid i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru hysbysu'r IPCC am Gŵynion Difrifol. Mae'r IPCC yn gyfrifol am ystyried pob Cwyn Ddifrifol.

**6. Tystiolaeth ar gyfer Materion Ymddygiad a Chwynion Difrifol**

6.1 Y gwahaniaeth rhwng Mater Ymddygiad a Chŵyn Ddifrifol yw lefel y dystiolaeth sy’n bresennol yn y gŵyn neu amgylchiadau eraill (e.e. adroddiadau yn y wasg) o ran a oes tramgwydd troseddol o bosibl wedi cael ei gyflawni gan y PCC neu'r DPCC. Nid gwaith y Panel yw penderfynu a yw trosedd wedi'i chyflawni, dim ond beirniadu a ddylid ystyried cwyn fel Mater Ymddygiad neu Cwyn Ddifrifol.

**7. Gwneud Cwyn am Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru neu Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**

7.1 Dylai cwynion am y PCC neu DPCC cael eu cyfeirio i’r Cyfarwyddwr Strategol (Democratiaeth, Rheoleiddio a Chefnogi), Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Bodlondeb, Conwy, LL32 8DU neu e-bostiwch pcc.complaints@conwy.gov.uk.

7.2 Gellir hefyd anfon cwynion at y PCC, DPCC, Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru neu'r Prif Gwnstabl. Gellir cysylltu â nhw i gyd yn y cyfeiriad canlynol, Swyddfa Comisiynydd Heddlu a

Throsedd Gogledd Cymru, Pencadlys Heddlu Gogledd Cymru, Glan-y-Don, Bae Colwyn, Conwy LL29 8AW neu Ffôn/ Ffacs 01492 805486.

7.3 Gellir anfon cwynion yn syth at y Comisiwn Annibynnol Cwynion yr Heddlu, Blwch Post 473, Sale, M33 0BW neu e-bostio enquiries@ipcc.gsi.gov.uk

**8. Derbyn Cwynion**

8.1 Rhaid anfon cwynion yn ymwneud â PCC a DPCC Gogledd Cymru, sy'n cael eu derbyn gan y PCC, DPCC, Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru neu'r Prif Gwnstabl at y Cyfarwyddwr Strategol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

8.2 Ar ôl derbyn cwyn, bydd y Cyfarwyddwr Strategol yn gwirio bod y gŵyn yn ymwneud â naill ai'r PCC neu'r DPCC. Os yw'r gŵyn yn ymwneud â rhywun heblaw'r PCC neu'r DPCC bydd y gŵyn yn cael ei hanfon ymlaen i'r swyddfa briodol a bydd yr achwynydd yn cael gwybod hynny.

**9. Penderfynu ar fath y Gŵyn**

9.1 Bydd y Cyfarwyddwr Strategol yn ymgynghori â'r Prif Weithredwr a'r Cadeirydd, Is-gadeirydd ac un Aelod Annibynnol i benderfynu ar fath y gŵyn; sef cwyn i'w datrys yn lleol gan y Panel, neu a ddylid ystyried y gŵyn yn 'Fater Ymddygiad' neu 'Gŵyn Ddifrifol' a'i chyfeirio i'r IPCC i benderfynu arni.

9.2 Os credir bod y gŵyn yn un i'w datrys yn lleol (yn ei chyfanrwydd neu yn rhannol) bydd yr achwynydd yn cael gwybod hynny ac yn cael esboniad o'r camau mae'r Panel yn bwriadu eu cymryd; bydd y Panel hefyd yn hysbysu'r Prif Weithredwr. Yn yr un modd, os credir bo'r gŵyn yn 'Fater Ymddygiad' neu'n 'Gŵyn Ddifrifol' bydd yn cael ei gyfeirio i'r IPCC am benderfyniad a hysbysir yr achwynydd.

**10. Cofrestr Cwynion a Materion Ymddygiad a Gofnodwyd**

10.1 Os yw'r gŵyn yn ymwneud â PCC neu DPCC bydd y gŵyn yn cael ei chofrestru yn y 'Gofrestr Cwynion a Materion Ymddygiad a Gofnodwyd'.

10.2 Defnyddir y Gofrestr Cwynion a Materion Ymddygiad a Gofnodwyd i gofnodi'r wybodaeth ganlynol; crynodeb o'r gŵyn, categori'r gŵyn (Cwyn, Mater Ymddygiad neu Gŵyn Ddifrifol), dyddiad derbyn, arwydd o'r camau gweithredu y bwriedir eu cymryd ar y Gŵyn ac unrhyw wybodaeth arall a gredir i fod yn berthnasol.

10.3 Os yw unrhyw un o'r eithriadau canlynol yn gymwys, does dim angen cofnodi Mater Ymddygiad:

- Mae'r mater eisoes wedi cael ei gofnodi fel cwyn; neu
- Mae'r mater wedi neu yn cael ei drin drwy achos troseddol yn erbyn y PCC neu DPCC.

10.4 Os daw’r IPCC yn ymwybodol o Fater Ymddygiad sydd heb gael ei gofnodi gan y Panel, gall yr IPCC gyfarwyddo'r Panel i gofnodi'r gŵyn.

10.5 Os yw unrhyw un o'r eithriadau canlynol yn gymwys, does dim angen cofnodi Cwyn:

- Os yw’r mater wedi cael neu yn cael ei drin ar hyn o bryd drwy achos troseddol: fel arfer bydd hyn yn wir os yw'r Heddlu wedi cyhuddo’n ffurfiol yr un y gwnaed cwyn yn ei erbyn neu fod gwybodaeth sy’n honni trosedd wedi cael ei roi gerbron llys ynadon; neu

- Mae’r Gŵyn wedi cael ei thynnu'n ôl.

10.6 Os caiff ei gofnodi (yn ei gyfanrwydd neu'n rhannol) bydd y Panel yn rhoi gwybod i'r achwynydd am hynny ac yn darparu gwybodaeth am y camau nesaf i'w cymryd mewn perthynas â'r Gŵyn. Yn yr un modd, bydd yr achwynydd yn cael gwybod am y penderfyniad i beidio â chofnodi'r gŵyn ac i beidio â chymryd unrhyw gamau pellach, ar ba sail y gwnaed y penderfyniad hwnnw ac a yw'r penderfyniad yn ymwneud â’r Gŵyn yn ei chyfanrwydd neu ran o’r Gŵyn.

10.7 Bydd y Panel hefyd yn hysbysu Prif Weithredwr Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

## 11. Gofyn am Fwy o Wybodaeth cyn Cofnodi Cwyn

11.1 Pan fydd y Cyfarwyddwr Strategol yn meddwl bod angen mwy o wybodaeth er mwyn ystyried cwyn, gall ofyn i'r achwynydd am wybodaeth ychwanegol.

11.2 Yna bydd penderfyniad yn cael ei wneud ynglŷn ag a ddylid cofnodi cwyn yn y Gofrestr Cwynion a Materion Ymddygiad a Gofnodwyd a sut y symudir ymlaen gyda’r gŵyn.

## 12. Cwynion a Wneir i’r PCC a DPCC a Chadw Tystiolaeth

12.1 Pan wneir cwyn yn uniongyrchol i’r PCC a/neu DPCC, mae'r ddau o dan ddyletswydd statudol i gymryd yr holl gamau sy’n ymddangos yn briodol ydyn nhw er mwyn cael a chadw tystiolaeth mewn perthynas â'r gŵyn dan sylw. Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon, byddant yn cymryd camau y byddai person rhesymol yn eu hystyried yn briodol yn yr amgylchiadau i gael a chadw tystiolaeth, a byddant bob amser yn cydymffurfio ag unrhyw geisiadau oddi wrth y Panel.

12.2 Rhaid i’r PCC a/neu DPCC hysbysu'r Panel yn ysgrifenedig (naill ai drwy lythyr neu e-bost) o’r Gŵyn (gan gynnwys copi o'r gŵyn) a darparu manylion o’r camau maent wedi'u cymryd i gadw tystiolaeth o'r fath, gan gynnwys ei leoliad ac ym meddiant pwy y mae ddim hwyrach na diwedd y diwrnod ar ôl i’r gŵyn gael ei gwneud.

**13. Cwynion a wneir i Aelod o Banel yr Heddlu a Throsedd**

13.1 Dylid cyfeirio unrhyw gŵyn a anfonwyd at unrhyw aelod o'r Panel ar unwaith i'r Cyfarwyddwr Strategol (Democratiaeth, Rheoleiddio a Chefnogi) yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Bodlondeb, Conwy, LL32 8DU, neu e-bostiwch pcc.complaints@conwy.gov.uk ynghyd ag unrhyw wybodaeth arall sydd ar gael sy'n berthnasol i'r gŵyn.

**14. Cwynion a wneir i Brif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru**

14.1 Pan wneir cwyn i Brif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru, mae'n ddyletswydd ar y Prif Gwnstabl i hysbysu'r Panel am y gŵyn i'r Panel.

**15. Cwynion a wneir i Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (IPCC)**

15.1 Pan wneir cwyn i'r IPCC, mae'n ddyletswydd ar yr IPCC i hysbysu'r Panel, oni bai bod yr IPCC yn ystyried bod amgylchiadau eithriadol i gyfiawnhau peidio â'u hysbysu.

**16. Cwynion a Wneir yn erbyn y Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru**

16.1 Bydd PCC Gogledd Cymru yn hysbysu'r Panel am unrhyw gwynion a wnaed yn erbyn Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru.

**16. Ymddygiad tu allan i Gymru a Lloegr**

16.1 Bydd PCC a DPCC Gogledd Cymru yn rhoi gwybod i'r Panel am unrhyw honiad, ymchwiliad neu achos mewn perthynas â'u hymddygiad, heb fod y Fater Ymddygiad (fel yr amlinellwyd uchod) dim ond oherwydd na ddigwyddodd yr ymddygiad dan sylw yng Nghymru neu Loegr. Gall y Panel ddelio ag unrhyw ag achosion o'r fath ym mha bynnag fodd bydd y Panel yn ystyried yn addas.

**17. Materion Ymddygiad yn deillio o Achosion Sifil**

17.1 Pan fo'r Panel yn cael eu hysbysu bod achos sifil yn ymwneud â Mater Ymddygiad wedi cael ei ddwyn yn erbyn PCC neu DPCC Gogledd Cymru gan aelod o'r cyhoedd, neu os yw'n ymddangos bydd achos yn debygol o gael ei ddwyn, bydd y Panel yn cofnodi'r mater ac yn ystyried ei fel cwyn.

**18. Dyletswydd y Panel i Cael a Chadw Tystiolaeth**

18.1 Pan ddaw cwyn i sylw'r Panel, mae'n ddyletswydd arno i sicrhau bod pob cam priodol yn cael ei gymryd i gael a chadw tystiolaeth mewn perthynas â'r gŵyn dan sylw.

**19. Peidio Gweithredu ar Gŵyn a Gofnodwyd**

19.1 Os yw'r Panel yn ystyried bod Cwyn a Gofnodwyd i'w datrys yn lleol yn un nad oes angen gweithredu arni, neu os yw un o'r amgylchiadau a amlinellwyd isod yn

berthnasol, yna efallai bydd y Panel yn ymdrin â'r gŵyn ym mha bynnag fodd y gwêl yn dda.

19.2 Y mathau o Gŵynion a Gofnodwyd y gellir eu trin yn y ffordd hon yw:

- Lle mae mwy na deuddeg mis wedi mynd heibio ers y digwyddiad ac nid oes unrhyw reswm dros yr oedi, neu byddai'n achosi anghyfiawnder;
- Mae'r mater eisoes wedi bod yn destun cwyn;
- Mae'r Gŵyn yn ddienw;
- Mae'r Gŵyn yn flinderus, yn ormesol neu fel arall yn gamddefnydd o'r gweithdrefnau; neu

- Mae'r Gŵyn yn ailadroddus. Mae "cwyn ailadroddus" yn un sydd yr un fath neu'n sylweddol yr un fath â chŵyn flaenorol, neu yn ymwneud â'r un ymddygiad â mater ymddygiad blaenorol, nid yw'n cynnwys unrhyw honiadau newydd sy'n effeithio'r ymddygiad y cwynwyd amdano, neu nid oes tystiolaeth newydd (sef tystiolaeth nad oedd ar gael yn rhesymol ar yr adeg cafodd y gŵyn flaenorol ei gwneud ac mewn perthynas â lle gwnaethpwyd penderfyniad blaenorol neu y tynnwyd cwyn yn ôl).

19.3 Rhaid i'r Panel hysbysu'r achwynydd ei fod wedi penderfynu ymdrin â'r Gŵyn a Gofnodwyd drwy beidio cymryd unrhyw gamau pellach; bydd y Panel hefyd yn hysbysu'r Prif Weithredwr.

19.4 Os ystyrir bod cwyn yn flinderus, bydd yr Awdurdod Lletyol yn defnyddio ei bolisi ei hun ar gyfer ymdrin â chwynion o'r fath.

## 20. Galw i mewn gan yr IPCC

20.1 Rhaid i'r Panel gyfeirio Cwyn a Gofnodwyd i'r IPCC os caiff ei hysbysu bod yr IPCC ei hun yn gofyn am i'r gŵyn gael ei chyfeirio i'r IPCC.

## 21. Atgyfeirio Cwynion a Materion Ymddygiad i'r IPCC

21.1 Pan fydd Cwyn a Gofnodwyd neu Fater Ymddygiad a Gofnodwyd yn cael ei gyfeirio i'r IPCC yna bydd y Panel yn gwneud hynny cyn gynted ag y bo'n ymarferol, a ddim hwyrach na diwedd y dydd yn dilyn y diwrnod y daeth yn amlwg i'r Panel bod y Gŵyn neu Fater Ymddygiad yn un y dylid ei gyfeirio at yr IPCC. Bydd y manylion yn y Gofrestr ar gael i'r IPCC ynghyd â gwybodaeth arall mae'r Panel yn ei ystyried yn briodol.

21.2 Wrth gyfeirio'r Gŵyn a Gofnodwyd i'r IPCC, rhaid i'r Panel hysbysu'r achwynydd a'r sawl y cwynwyd amdano am yr atgyfeiriad, oni bai yr ymddengys i'r Panel y gallai hysbysu'r PCC neu DPCC amharu ar ymchwiliad posibl yn y dyfodol.

## 22. Atgyfeirio Cwynion a Materion Ymddygiad o'r IPCC at y Panel

22.1 Pan fydd yr IPCC yn penderfynu nad oes angen iddo ymchwilio i Gŵyn Ddifrifol a Gofnodwyd, gall gyfeirio'r gŵyn yn ôl at y Panel sy'n gorfod delio â'r atgyfeiriad mewn modd sy'n cael ei ystyried yn briodol o fewn y Weithdrefn Gwyno. Bydd yr IPCC yn hysbysu'r achwynydd a'r PCC neu DPCC y cwynwyd yn ei erbyn am y penderfyniad hwn.

22.2 Gallai'r IPCC, os yw'n penderfynu nad oes angen iddo ymchwilio i Fater Ymddygiad a Gofnodwyd, gyfeirio'r mater yn ôl i'r Panel a all ddelio â hi mewn modd sy'n cael ei ystyried yn briodol o fewn y Weithdrefn Gwyno hon. Bydd yr IPCC yn hysbysu'r PCC neu DPCC y cwynwyd yn ei erbyn am y penderfyniad hwn.

**23. Tynnu Cwynion yn ôl**

23.1 Os yw'r Panel yn cael ei hysbysu bod yr achwynydd yn dymuno tynnu eu cwyn yn ôl, wedi ei lofnodi naill ai ganddynt hwy neu eu cyfreithiwr neu rywun arall sy'n gweithredu ar eu rhan, yna bydd y gŵyn yn peidio â bodoli yn amodol ar y canlynol:

- Os yw'r Gŵyn a Gofnodwyd gyda'r IPCC, rhaid i'r Panel hysbysu'r IPCC ei fod wedi cofnodi tynnu'r gŵyn yn ôl.

- Mewn achos lle mae'r IPCC wedi cyfeirio'r Gŵyn a Gofnodwyd i'r Panel, rhaid iddo ystyried a yw er lles y cyhoedd i'r gŵyn gael ei thrin fel Mater Ymddygiad (er bod y gŵyn wedi'i thynnu yn ôl) a bydd yn hysbysu'r IPCC yn unol â hynny.

23.2 O ran Cwyn a Gofnodwyd, nad yw'r IPCC wedi cael ei hysbysu yn ei chylch, rhaid i'r Panel benderfynu a yw lles y cyhoedd i'r gŵyn gael ei thrin fel Mater Ymddygiad er i'r achwynydd ei thynnu yn ôl. Bydd y Panel yn rhoi gwybod i'r PCC neu DPCC y cwynwyd amdano, y gwnaethpwyd cofnod o dynnu Cwyn a Gofnodwyd yn ôl ac os yw wedi penderfynu ei thrin fel Mater Ymddygiad a Gofnodwyd er gwaethaf, a bydd yn newid y Gofrestr yn unol â hynny.

23.3 Bydd yr IPCC, ar ôl derbyn hysbysiad gan y Panel o dynnu Cwyn a Gofnodwyd yn ôl ac a gyfeiriwyd ato, yn penderfynu a yw er lles y cyhoedd i'r gŵyn gael ei thrin fel Mater Ymddygiad a Gofnodwyd a hysbysu'r Panel, a fydd yn hysbysu'r achwynydd a newid y Gofrestr yn unol â hynny.
Mae'r Rheoliadau hefyd yn cynnwys darpariaethau ar gyfer cysylltu â'r achwynydd os ydynt yn dynodi eu bod yn dymuno tynnu eu Cwyn a Gofnodwyd yn ôl, ond heb arwyddo cais tynnu yn ôl.

23.4 Os bydd yr IPCC yn cyfeirio mater yn ôl i'r Panel, yn achos Cwyn a Gofnodwyd bydd yn cael ei drin yn unol â'r weithdrefn Penderfynu Anffurfiol a amlinellir isod ac, yn achos o Mater Ymddygiad a Gofnodwyd yn y fath fodd y dymuna'r Panel benderfynu arnynt.

**24. Datrys Cwynion yn Anffurfiol gan y Panel**

24.1 Bydd Cwyn a Gofnodwyd yn erbyn y PCC a/neu DPCC yn cael eu trin gan y Panel trwy ddatrys anffurfiol.

24.2 Caiff datrys anffurfiol ei ystyried i fod yn annog, hwyluso, neu gynorthwyo gyda datrys cwyn trwy ddull arall i achos cyfreithiol.

**25. Dirprwyo Cwynion i'w Datrys yn Anffurfiol**

25.1 Bydd y Cyfarwyddwr Strategol (Democratiaeth, Rheoleiddio a Chefnogi) yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn gyfrifol am ymgymryd â'r broses ddatrys anffurfiol. Wrth wneud hynny rhaid ymgynghori â'r Cadeirydd ynghylch y strategaeth ddatrys lleol arfaethedig a chanlyniad arfaethedig y gŵyn.

**26. Gwybodaeth Bellach**

26.1 Ni fydd y weithdrefn ar gyfer datrys anffurfiol yn cynnwys ymchwiliad ffurfiol i'r gŵyn, ond gellir gofyn am ddogfennau mewn perthynas â'r gŵyn a chyfarfodydd gyda'r person y cwynir yn ei erbyn. Wrth geisio sicrhau datrys y cwynion, bydd y Panel yn ystyried a oes angen gwybodaeth/eglurhad/esboniad pellach a/neu a oes angen unrhyw gamau gweithredu.

**27. Cwynion a gafodd eu Datrys**

27.1 Os yw'n ymddangos i'r Panel fod Cwyn a Gofnodwyd yn erbyn y PCC a/neu DPCC eisoes wedi cael eu trin yn foddhaol pan gafodd ei dwyn i'w sylw, gall y Panel, yn amodol ar unrhyw sylwadau pellach, ei drin fel un sydd wedi cael ei datrys.

**28. Ymddiheuriadau**

28.1 Bydd y Panel yn ceisio datrys cwyn yn anffurfiol drwy sicrhau ymddiheuriad oddi wrth y PCC neu DPCC i'r achwynydd, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Fodd bynnag, ni fydd y Panel yn rhoi ymddiheuriad ar ran yr un y cwynwyd ynghylch ei ymddygiad, oni bai bo'r person y cwynwyd yn ei erbyn wedi cytuno i roi ymddiheuriad.

**29. Ymgynghori ar Benderfyniadau Drafft**

29.1 Bydd y Panel, cyn gwneud penderfyniad terfynol bod cwyn eisoes wedi cael ei datrys, yn rhoi cyfle i'r achwynydd a'r sawl y gwneir cwyn yn erbyn i roi sylwadau ar y penderfyniad arfaethedig.

29.2 Os yw'r sawl y gwneir cwyn yn ei erbyn yn dewis peidio rhoi sylwadau ar y gŵyn, bydd y Panel yn cofnodi'r ffaith hon yn ysgrifenedig.

**30. Penderfyniad Terfynol**

30.1 Pan fo Cwyn a Gofnodir wedi cael ei datrys yn anffurfiol, bydd y Panel, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, yn gwneud cofnod o ganlyniad y drefn ac yn anfon copi o'r cofnod hwnnw i'r achwynydd a'r person y cwynwyd yn ei erbyn.

30.2 Ni fydd y Panel yn cyhoeddi unrhyw ran o unrhyw gofnod o'r fath oni bai:

- Ei fod wedi rhoi'r cyfle i'r achwynydd a'r sawl y gwneir cwyn yn erbyn i wneud sylwadau mewn perthynas â'r cyhoeddiad arfaethedig; ac

- Wedi ystyried unrhyw sylwadau o'r fath, a'i fod o'r farn bod cyhoeddi er lles y cyhoedd.

30.3 Mewn achosion lle mae'r Panel yn cadarnhau Cwyn a Gofnodwyd; does ganddo ddim pwerau cyfreithiol i ddefnyddio sancsiynau ffurfiol ac eithrio i roi barn ar ymddygiad deilydd y swydd dan sylw.

**31. Cadw Cofnodion a Darparu Gwybodaeth**

31.1 Bydd y Panel yn cadw cofnodion o bob cwyn a chwynion honedig a wneir neu a dderbynnir; bob mater ymddygiad a gofnodwyd gan y Panel sy'n deillio o achos sifil neu fel arall sy'n dod i sylw'r Panel; a phob defnydd o bŵer neu gyflawni dyletswydd o dan y Rheoliadau.

**32. Adrodd yn Flynyddol ar Gŵynion**

32.1 Bydd y Panel yn derbyn adroddiad o leiaf bob blwyddyn yn rhoi crynodeb o bob cwyn (fel y gellir ei adrodd yn gyhoeddus) ac arfer ei swyddogaethau at ddibenion monitro.

Dyddiad Cymeradwyo:

**Atodiad 1**

## SIART LLIF YN AMLINELLU'R BROSES GŴYNION

### Ble i anfon eich cwyn

Dylai pob cwyn yn ymwneud â Chomisiynydd a Throsedd Heddlu Gogledd Cymru (PCC) a Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd (Dirprwy PCC) gael ei anfon at y Cyfarwyddwr Strategol (Democratiaeth, Rheoleiddio a Chefnogi) yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Os bydd cwyn yn ymwneud â pherson heblaw'r PCC neu'r Dirprwy PCC yna bydd y gŵyn yn cael ei chyfeirio i'r swyddfa briodol a bydd yr achwynydd yn cael ei hysbysu yn unol â hynny.

↓

### Penderfynu ar fath cwynion

Mae Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru wedi dirprwyo ei swyddogaethau i'r Cyfarwyddwr Strategol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, ac mae'n rhaid iddo ymgynghori â'r Cadeirydd, Is-gadeirydd, un Aelod Annibynnol o'r Panel a Phrif Weithredwr Swyddfa Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru wrth benderfynu ar y math o gŵynion a dderbyniwyd a'r strategaeth ar gyfer rheoli cwynion i'w datrys yn lleol.

↓

### MATHAU O GŴYNION

#### Cwyn gyffredinol

Cwyn, sy'n ymwneud â'r PCC neu Ddirprwy PCC nad yw'n fater ymddygiad na chŵyn ddifrifol, neu gŵyn na all yr IPCC ymchwilio iddi.

↓

Bydd cwyn cyffredinol i'w datrys yn lleol yn cael ei chyfeirio i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a'i nodi yn y Gofrestr Cwynion a Materion Ymddygiad a Gofnodwyd. Bydd yr achwynydd yn cael gwybod am hyn ac yn cael eglurhad o'r camau mae'r Panel yn bwriadu eu cymryd.

#### Mater ymddygiad

Cwyn lle mae arwydd (o'r amgylchiadau neu fel arall) efallai bod y PCC a/neu DPCC wedi cyflawni trosedd. Gall Materion Ymddygiad godi heb i gŵyn gael ei gwneud (er enghraifft, straeon yn y wasg.)

↓

Mae cwyn sy'n cael ei hystyried yn Fater Ymddygiad yn cael ei chyfeirio i Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (IPCC) i'w hystyried a'i chofnodi yn y Gofrestr Cwynion a Materion Ymddygiad a Gofnodwyd. Bydd yr achwynydd yn cael gwybod am y camau hyn.

#### Cwynion difrifol

Cwyn am ymddygiad PCC neu'r Dirprwy PCC, lle mae tystiolaeth sy'n golygu neu'n cynnwys, neu'n ymddangos i olygu neu gynnwys comisiynnu tramgwydd troseddol.

↓

Mae cwyn sy'n cael ei hystyried yn Gŵyn Ddifrifol yn cael ei chyfeirio i Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (IPCC) i'w hystyried a'i chofnodi yn y Gofrestr Cwynion a Materion Ymddygiad a Gofnodwyd. Bydd yr achwynydd yn cael gwybod am y camau hyn.

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| **DYDDIAD:** | 4 Mehefin 2013 |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Ken Finch – Cyfarwyddwr Strategol (Democratiaeth, Rheoleiddio a Chefnogi) - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| **TESTUN:** | Lwfansau a Threuliau Aelodau |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Ystyried a ddylai Trefniadau Panel ar gyfer Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru wneud darpariaeth ar gyfer talu lwfansau aelodau'r Panel.

1.2 Bydd unrhyw lwfansau a delir yn gorfod cael eu hadlewyrchu yn Nhrefniadau'r Panel a bydd y Swyddfa Gartref angen cytuno ar unrhyw newidiadau i'r trefniadau hyn.

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Mae'r Llywodraeth yn ymroddedig i dalu costau cynnal y Paneli Heddlu a Throsedd a gall Awdurdodau Cynnal ar gyfer Panel yr Heddlu a Throsedd dderbyn yn flynyddol hyd at:

- £53,300 am y gost o weinyddu'r Paneli;
- £5,715 ar gyfer costau cyfieithu i Baneli Cymraeg; a
- £920 am dreuliau i bob aelod

2.2 O'r ffigurau uchod, ar hyn o bryd mae £920 ar gael yn flynyddol i bob aelod panel ar gyfer treuliau (£460 ar gyfer 2012/13), (i gynnwys lwfansau pe bai lwfans yn daladwy).

2.3 Ar hyn o bryd, nid yw Trefniadau'r Panel ar gyfer Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru'n darparu taliad ar gyfer unrhyw lwfans, dim ond ar gyfer treuliau a chynhaliaeth a geir gan aelodau'r Panel yn ystod eu dyletswyddau. Telir unrhyw gostau treuliau neu gynhaliaeth yn unol ag

ad-dalu treuliau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - cyfraddau “Lwfans teithio” a “Lwfans cynhaliaeth", fel y’i diwygiwyd.

## 3. ARGYMHELLION/OPSIYNAU

3.1 Bod Panel yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru’n ystyried a ddylai Trefniadau’r Panel wneud darpariaeth ar gyfer talu lwfansau aelodau'r Panel.

## 4. GWYBODAETH GEFNDIR

4.1 Nid yw Trefniadau Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru’n darparu ar gyfer talu lwfansau Aelodau Etholedig neu Aelodau Cyfetholedig y Panel. Mae’r Ddeddf, fodd bynnag, yn darparu bod Trefniadau’r Panel yn gallu gwneud darpariaeth i dalu lwfansau aelodau’r panel.

4.2 Er nad oes ffigurau cyflawn ar gael, mae nifer o Baneli Heddlu a Throsedd ar draws Cymru a Lloegr yn talu lwfansau, ond nid ydyw’n ymddangos bod dull cyson. Ceir esiamplau lle na thelir lwfansau; bob aelod o'r Panel yn cael lwfans; y Cadeirydd a’r Is-gadeirydd yn unig sy’n cael lwfans; ac Aelodau Cyfetholedig yn unig yn cael lwfans.

4.3 Mae tri allan o’r pedwar Panel Heddlu a Throsedd yng Nghymru’n talu lwfansau fel a ganlyn:-

**Panel Heddlu a Throsedd Dyfed Powys** – Mae aelodau o'r Panel yn cael taliadau i gydnabod yr amser y maent yn ei roi i'w gwaith sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd, a bod yn bresennol ynddynt, gan gynnwys treuliau cysylltiedig. Gwneir taliadau drwy ffi ddyddiol o £198 (£99.00 am hanner diwrnod), sydd ag uchafswm sy’n gyfwerth â 5 diwrnod llawn y flwyddyn.

**Panel Heddlu a Throsedd Gwent** – Mae Aelodau’r Panel yn cael ffi ar gyfradd ddyddiol ac ar uchafswm o 6 diwrnod y flwyddyn, fesul aelod panel. Mae ffioedd y gyfradd ddyddiol ym Medi 2012 fel a ganlyn:

- Cadeirydd Panel Heddlu a Throsedd Gwent - £256.00 fesul diwrnod
- Aelod Panel Heddlu a Throsedd Gwent - £198.00 fesul diwrnod

Yn ogystal â hyn, mae gan Aelodau Panel Heddlu a Throsedd Gwent yr hawl i hawlio lwfansau teithio ar gyfer dyletswyddau cymeradwy. Bydd cyfraddau teithio'r un rhai â’r rhai hynny a benderfynir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau Awdurdodau Lleol.

4.4 **Panel Heddlu a Throsedd De Cymru** – Ar gyfer 2013/14 ac yn ddibynnol ar gymeradwyaeth y Swyddfa Gartref, telir unrhyw lwfans, yn ddibynnol ar bresenoldeb yr aelod mewn cyfarfodydd/hyfforddiant, ac ati hyd at uchafswm o 5 digwyddiad/cyfarfod y flwyddyn, am swm o £184 bob tro.

Cyfeirir at y taliad lwfans hwn fel "lwfans cyffredinol" ac mae'n rhoi hawl i aelod o'r panel gael taliad am uchafswm o £920.00 (h.y. 5 x £184) am y flwyddyn, ac os yw aelodau'n cael y lwfans cyffredinol hwn, nid oes unrhyw daliad ychwanegol ar gyfer treuliau teithio/cynhaliaeth. Fel arall, gall yr aelodau hynny nad ydynt yn dymuno cael lwfans cyffredinol dynnu allan a hawlio treuliau teithio/cynhaliaeth yn y ffordd arferol.

4.5 Er nad oes gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol unrhyw bwerau mewn perthynas â Phaneli Heddlu a Throsedd, mae eu penderfyniadau wedi'u defnyddio ar sail talu unrhyw dreuliau. Bydd angen adlewyrchu taliadau unrhyw lwfansau yn Nhrefniadau'r Panel a bydd angen i'r Swyddfa Gartref gytuno ar unrhyw newidiadau i'r trefniadau.

**5. YMGYNGHORI**

5.1 Ymgynghorwyd â Chadeirydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

**6. GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU**

6.1 Mae'r Swyddfa Gartref yn darparu cyllid i'r Awdurdod Lleol sy'n Cynnal, ar gyfer Panel Heddlu a Throsedd, sy'n gallu derbyn yn flynyddol hyd at:

- £53,300 am y gost o weinyddu'r Paneli;
- £5,715 ar gyfer costau cyfieithu i Baneli Cymraeg; a
- £920 am dreuliau i bob aelod

**7. RISG**

7.1 Nid oes unrhyw risg amlwg i'r Panel mewn perthynas ag ystyried yr adroddiad hwn.

**8. CYHOEDDI**

8.1 Cyhoeddir treuliau'r Panel yn flynyddol.

**9. RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD**

9.1 Cael eglurhad ar dalu lwfansau i aelodau Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | Panel yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| **DYDDIAD:** | 4 Mehefin 2013 |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Ken Finch – Cyfarwyddwr Strategol (Democratiaeth, Rheoleiddio a Chefnogi) - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| **TESTUN:** | Adolygiad o Aelodaeth y Panel Heddlu a Throsedd |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Adolygu dadansoddiad aelodaeth Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar gyfer 2013, gan ystyried canlyniad yr etholiad ar Ynys Môn. Mae gan Gylch Gorchwyl y Panel ddarpariaeth arbennig ar gyfer cynnal adolygiad cyn pen 12 mis o Etholiad Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd hefyd.

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Mae'r Panel Heddlu a Throsedd yn cynnwys deg Aelod Etholedig a dau Aelod Annibynnol. Mae dyletswydd ar Aelodau Etholedig y Panel i greu panel cytbwys. Yn dilyn Etholiad Llywodraeth Leol, mae angen i'r Awdurdod Cynnal wneud argymhelliad ar gyfer sicrhau cydbwysedd gwleidyddol y Panel, ac yng ngogledd Cymru, mae hyn yn ystyried gweithredu methodoleg d'hondt (y mae pob Awdurdod Lleol wedi cytuno i'w mabwysiadu), yna mae'n edrych ar wasgariad grwpiau gwleidyddol ar draws y rhanbarth.

2.2 O fewn 12 mis i ethol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd cyntaf, mae angen i'r Panel adolygu priodoldeb yr Aelodau yn unol â darpariaethau o fewn *Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011* a *Rheoliadau Paneli'r Heddlu a Throsedd (Enwebiadau, Penodiadau, Hysbysiadau) 2012*. Bydd angen i'r adolygiad o'r aelodaeth ystyried yr angen sydd o hyd gogyfer â chael cydbwysedd gwleidyddol ar y Panel.

2.3 Mae’r taenlenni sydd ynghlwm yn Atodiad 1 yn dangos bod dadansoddiad y seddau ar gyfer pob grŵp gwleidyddol yn aros yr un fath, sef 3 yr un ar gyfer aelodau Annibynnol ac aelodau Llafur, 2 i Blaid Cymru ac 1 yr un i’r Ceidwadwyr a’r Democratiaid Rhyddfrydol. Mae nifer yr Aelodau i gael eu penodi ar gyfer pob Cyngor yn aros yr un fath hefyd, sef 2 yr un i Gonwy, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam ac 1 yr un ar gyfer Sir Ddinbych ac Ynys Môn.

2.4 O ran yr ymarfer dyrannu, mae’r canlyniad yn awgrymu bod y grwpiau ar gyfer Sir y Fflint, Gwynedd, Wrecsam ac Ynys Môn yn aros fel y maent ar hyn o bryd, ond y byddai’n rhaid i Gonwy a Sir Ddinbych newid eu Haelodau enwebedig o aelodau Llafur i aelodau Annibynnol ac o aelodau Annibynnol i aelodau Lafur hefyd.

## 3. ARGYMHELLION/DEWISIADAU

3.1 Bod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn adolygu aelodaeth y Panel yn ôl y gofyn ac yn ystyried sut mae’r aelodaeth yn cydymffurfio â’r gofyniad i gynrychioli pob rhan o ardal yr heddlu ac yn cynrychioli cyfansoddiad gwleidyddol yr Awdurdodau Lleol perthnasol pan gymerir hwy gyda’i gilydd.

3.2 Bod y canlyniad a awgrymir ym Mharagraff 2.4 yn cael ei gymeradwyo ac ar ôl eu penodi, bod aelodaeth Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn cael ei gyflwyno i’r Swyddfa Gartref i gael ei gymeradwyo.

## 4. GWYBODAETH GEFNDIR

4.1 Mae’r Panel Heddlu a Throsedd yn cynnwys deg Aelod Etholedig a dau Aelod Annibynnol. Bydd Aelodau Etholedig y Panel, cyn belled ag sy’n ymarferol, yn adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol a demograffig cymunedol Gogledd Cymru. Yn dilyn Etholiad Llywodraeth Leol, mae angen i’r Awdurdod Cynnal wneud argymhelliad ar gyfer sicrhau cydbwysedd gwleidyddol y Panel, sy’n ystyried gweithredu methodoleg d’hondt (y mae pob Awdurdod Lleol wedi cytuno i’w mabwysiadu).

4.2 Mae tabl sy’n defnyddio methodoleg d'hondt yn cadarnhau dyraniad nifer y seddau ar y Panel ar gyfer pob Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru drwy gyfeirio at boblogaeth. Ffigurau’r boblogaeth yw’r rhai a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru wrth bennu Setliad Grant Cynnal Refeniw y flwyddyn berthnasol.

4.3 Mae’r tabl sy’n defnyddio methodoleg d’hondt hefyd yn cadarnhau'r seddau ar gyfer pob grŵp gwleidyddol ar draws gogledd Cymru fel

cyfanrwydd ac mae'n dangos y cyfrannedd ar gyfer pob grŵp gwleidyddol fel y maent yn berthnasol i bob Awdurdod Lleol.

4.4 O ran y broses ddyrannu, defnyddiwyd egwyddor y gyfran uchaf sydd gan grŵp gwleidyddol o'r aelodau cyffredinol ar gyfer y grŵp hwnnw ar draws pob un o'r 6 Awdurdodau Lleol fel y prif faen prawf ar gyfer dyrannu aelodau.

Mae hyn yn awgrymu canlyniad:

- Dylai 2 aelod Plaid Cymru ddod o Wynedd (53.62%) o aelodau PC cyffredinol ar draws gogledd Cymru
- Dylai 1 aelod Ceidwadol ddod o Gonwy (40.00%)
- Dylai 3 aelod Llafur ddod o Sir y Fflint (34.83%), Wrecsam (25.84%) a Sir Ddinbych (20.22%).

4.5 Mae hyn yn gadael y 3 Aelod Annibynnol i gael eu penodi, a fyddai, drwy broses ddileu ar sail y canlyniad a awgrymir uchod, yn dod o Gonwy, Wrecsam ac Ynys Môn.

4.6 Mae'r canlyniad yn awgrymu bod y grwpiau ar gyfer Sir y Fflint, Gwynedd, Wrecsam ac Ynys Môn yn aros fel y maent ar hyn o bryd, ond y byddai'n rhaid i Gonwy a Sir Ddinbych newid eu Haelodau enwebedig o Lafur i aelodau Annibynnol ac o aelodau Annibynnol i aelodau Llafur hefyd.

## 5. YMGYNGHORI

5.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad gyda Chadeirydd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gyda Phrif Weithredwyr y chwe Awdurdod Lleol yng ngogledd Cymru. Nid ydynt wedi mynegi unrhyw wrthwynebiad i'r canlyniad a awgrymir. Mae'r sefyllfa hefyd wedi'i hegluro wrth ddau aelod presennol y Panel Heddlu a Throsedd y mae'r canlyniad a awgrymir yn effeithio arnynt. Mae'r ddau yn deall ac yn derbyn yr eglurhad.

## 6. GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU

6.1 Dim.

## 7. RISG

7.1 I gydymffurfio a'r darpariaethau yn *Neddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011* a *Rheoliadau Paneli'r Heddlu a Throsedd (Enwebiadau, Penodiadau, Hysbysiadau) 2012*, mae angen cynnal adolygiad o'r aelodaeth. Os na chaiff hyn ei wneud, gallai olygu bod yr Awdurdod Cynnal yn agored i gael ei herio o ran cyfansoddiad y Panel

Heddlu a Throsedd o bosibl ac unrhyw benderfyniad/cam gweithredu yn y dyfodol.

## 8. CYHOEDDI

8.1 Caiff aelodaeth y Panel ei gyhoeddi ar wefan Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, yn dilyn cymeradwyaeth gan y Swyddfa Gartref.

## 9. RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD

9.1 I gydymffurfio a'r darpariaethau yn *Neddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011* a *Rheoliadau Paneli'r Heddlu a Throsedd (Enwebiadau, Penodiadau, Hysbysiadau) 2012*.

**d'hondt - poblogaeth 2012**

| | Poblogaeth | Cyfran y Boblogaeth | Seddau Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru | 1 | 2 | 3 | 4 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Mon | 69682 | 10.13% | 1 | 69682 | 34841.00 | 11613.67 | 2903.42 |
| Gwynedd | 119461 | 17.36% | 2 | 119461 | 59730.50 | 19910.17 | 4977.54 |
| Conwy | 112666 | 16.38% | 2 | 112666 | 56333.00 | 18777.67 | 4694.42 |
| Sir Ddinbych | 99213 | 14.42% | 1 | 99213 | 49606.50 | 16535.50 | 4133.88 |
| Sir y Fflint | 150908 | 21.93% | 2 | 150908 | 75454.00 | 25151.33 | 6287.83 |
| Wrecsam | 136103 | 19.78% | 2 | 136103 | 68051.50 | 22683.83 | 5670.96 |
| | 688033 | | 10 | | | | |

**d'hondt 2012 Seddau**

| | Cyfanswm Seddau | Cyfran o'r Cyfanswm | Seddau Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru | 1 | 2 | 3 | 4 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ceidwadol** | **35** | 10.54% | **1** | 35 | 17.50 | 11.67 | 8.75 |
| **Llafur** | **88** | 26.51% | **3** | 88 | 44.00 | 29.33 | 22.00 |
| **Democratiaid Rhyddfrydol** | **21** | 6.33% | **1** | 21 | 10.50 | 7.00 | 5.25 |
| **Plaid Cymru** | **72** | 21.69% | **2** | 72 | 36.00 | 24.00 | 18.00 |
| **Llais Gwynedd** | **13** | 3.92% | **0** | 13 | 6.50 | 4.33 | 3.25 |
| **Annibynnol** | **103** | 31.02% | **3** | 103 | 51.50 | 34.33 | 25.75 |
| | **332** | | **10** | | | | |

## Etholiad 2013 - Dadansoddiad o'r Seddau

| AWDURDOD | Ceidwadol | % | Annibynnol ac Eraill | % | Llafur | % | Democratiaid Rhyddfrydol | % | Llais Gwynedd | % | Plaid Cymru | % | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ynys Mon** | 0 | *0.00* | 14 | *13.08* | 3 | *3.37* | 1 | *5.26* | 0 | *0.00* | 12 | *17.39* | **30** |
| **Gwynedd** | 0 | *0.00* | 18 | *16.82* | 4 | *4.49* | 2 | *10.53* | 14 | *100.00* | 37 | *53.62* | **75** |
| **Conwy** | 14 | *40.00* | 18 | *16.82* | 10 | *11.24* | 5 | *26.32* | 0 | *0.00* | 12 | *17.39* | **59** |
| **Sir Ddinbych** | 8 | *22.86* | 13 | *12.15* | 18 | *20.22* | 0 | *0.00* | 0 | *0.00* | 8 | *11.59* | **47** |
| **Sir y Fflint** | 8 | *22.86* | 24 | *22.43* | 31 | *34.83* | 7 | *36.84* | 0 | *0.00* | 0 | *0.00* | **70** |
| **Wrecsam** | 5 | *14.29* | 20 | *18.69* | 23 | *25.84* | 4 | *21.05* | 0 | *0.00* | 0 | *0.00* | **52** |
| | **35** | | **107** | | **89** | | **19** | | **14** | | **69** | | **333** |
| **Seddau ar gyfer y** | **1** | | **3** | | **3** | | **1** | | **0** | | **2** | | **10** |

**Etholiad 2013 - Dadansoddiad o'r Grwpiau Gwleidyddol**

| | CSYM | % | CG | % | CBSC | % | CSDd | % | CSFf | % | CBSW | % | Cyfanswm | % | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ceidwadol** | 0 | *0.00* | 0 | *0.00* | 14 | *23.73* | 8 | *17.02* | 8 | *11.43* | 5 | *9.62* | 35 | *10.51* | 1.05 | **1** |
| **Llafur** | 3 | *10.00* | 4 | *5.33* | 10 | *16.95* | 18 | *38.30* | 31 | *44.29* | 23 | *44.23* | 89 | *26.73* | 2.67 | **3** |
| **Democratiaid Rhyddfrydol** | 1 | *3.33* | 2 | *2.67* | 5 | *8.47* | 0 | *0.00* | 7 | *10.00* | 4 | *7.69* | 19 | *5.71* | 0.57 | **1** |
| **Plaid Cymru** | 12 | *40.00* | 37 | *49.33* | 12 | *20.34* | 8 | *17.02* | 0 | *0.00* | 0 | *0.00* | 69 | *20.72* | 2.07 | **2** |
| **Llais Gwynedd** | 0 | *0.00* | 14 | *18.67* | 0 | *0.00* | 0 | *0.00* | 0 | *0.00* | 0 | *0.00* | 14 | *4.20* | 0.42 | **0** |
| **Annibynnol** | 14 | *46.67* | 18 | *24.00* | 18 | *30.51* | 13 | *27.66* | 24 | *34.29* | 20 | *38.46* | 107 | *32.13* | 3.21 | **3** |
| | **30** | **100** | **75** | **100** | **59** | **100** | **47** | **100** | **70** | **100** | **52** | **100** | **333** | **100** | **10** | **10** |
| Poblogaeth | 69682 | | 119461 | | 112666 | | 99213 | | 150908 | | 136103 | | **688033** | | | |
| Cyfran | 0.10 | | 0.17 | | 0.16 | | 0.14 | | 0.22 | | 0.20 | | **1** | | | |
| **Seddau** | **1** | | **2** | | **2** | | **1** | | **2** | | **2** | | **10** | **10** | | |

**EITEM RHAGLEN 8d**

**Police and Crime Panels**

**National Training/Development Session**

**Early July**

**Mid-Wales Venue**

DRAFT

| | |
|---|---|
| **10.00** | Registration |
| **10.30** | Welcome and Introduction to the Day - Cllr Brendan Toomey (WLGA Spokesperson for Community Safety, Policing and Fire) |
| **10.40** | Setting the Scene: The Role of PCPs as set out in legislation - Naomi Alleyne (WLGA Director Equalities and Social Justice) |
| **11.00** | Experiences from England and Wales: LGA - (Mark Norris/Chris Williams tbc) |
| **11.30** | Workshops: Lessons Learnt - Introduction to Session by Voirrey Manson |
| **12.15** | Feedback |

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

| | |
|---|---|
| **12.30** | Lunch |

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

| | |
|---|---|
| **13.15** | IPCC: The Complaints Process |
| **13:55** | Workshops: Maximising Opportunities – Introduction to Session by Voirrey Manson |
| **14:40** | Feedback |
| **14:55** | Moving Forward: Support Needed by PCPs in Wales – Voirrey Manson |
| **15.15** | Closing Remarks – Cllr B Toomey |
| **15:20** | CLOSE |

POLICE AND CRIME PANEL
PANEL HEDDLU A THROSEDD

# PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

## Y RHAGLEN WAITH I'R DYFODOL

MAI 2013

| | |
|---|---|
| Contact Officer: | Dawn Hughes |
| | Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Bodlondeb<br>Conwy<br>LL28 5NF |
| E-bost: | dawn.hughes@conwy.gov.uk |
| Ffon: | 01492 576061 |

EITEM RHAGLEN 8e

| Dyddiad | Testun | Swyddog Cyfrifol |
| --- | --- | --- |
| **4 Meh 2013** | **Diweddariad Cyfnodol gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd**<br>Derbyn diweddariad ynglŷn â gwaith y Comisiynydd ers y cyfarfod diwethaf | Winston Roddick, Comisiynydd Heddlu a Throsedd |
| **4 Meh 2013** | **Adroddiad Blynyddol gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd**<br>Derbyn adroddiad blynyddol y Comisiynydd (Tachwedd 2012 hyd Mai 2013) | Winston Roddick, Comisiynydd Heddlu a Throsedd |
| **4 Meh 2013** | **Gwrandawiad Cadarnhau ar gyfer y Prif Swyddog Cyllid**<br>Adolygu'r penodiad bwriedig sydd i'w wneud gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd i swydd y Prif Swyddog Cyllid | Winston Roddick, Comisiynydd Heddlu a Throsedd |
| **4 Meh 2013** | **Gweithdrefn Gwynion**<br>Ystyried gweithdrefn gwynion briodol ar gyfer Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru. | Ken Finch, Cyfarwyddwr Strategol (Democrataidd, Rheoleiddio a Chefnogi)<br>ken.finch@conwy.gov.uk |
| **4 Meh 2013** | **Lwfansau a Threuliau Aelodau**<br>Ystyried diwygio trefniadau Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru o ran talu lwfansau aelodau. | Ken Finch, Cyfarwyddwr Strategol (Democrataidd, Rheoleiddio a Chefnogi)<br>ken.finch@conwy.gov.uk |
| **4 Meh 2013** | **Adolygu Aelodaeth Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**<br>O fewn 12 mis i ethol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd cyntaf dros Ogledd Cymru, bydd y panel yn adolygu priodoldeb yr Aelodau yn unol â darpariaethau o fewn Deddf Diwygio'r heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol a Rheoliadau Paneli'r Heddlu a Throsedd (Enwebiadau, Penodiadau, Hysbysiadau) 2012. Bydd yr adolygiad o'r aelodaeth yn ystyried yr angen sydd o hyd gogyfer â chael cydbwysedd wleidyddol ar y Panel. | Ken Finch, Cyfarwyddwr Strategol (Democrataidd, Rheoleiddio a Chefnogi)<br>ken.finch@conwy.gov.uk |

| Date | Subject | Responsible Officer (including e-mail address) |
| --- | --- | --- |
| **Awst 2013** | **Gwrandawiad Cadarnhau ar gyfer Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd**<br>Adolygu'r penodiad bwriedig sydd i'w wneud gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd i swydd Dirprwy iddo. | Winston Roddick, Comisiynydd Heddlu a Throsedd |
| **9 Medi 2013**<br><br>**11 Tach 2013**<br><br>**17 Maw 2014** | **Cynllun yr Heddlu a Throsedd - Adolygiad Cynydd**<br>Adolygu'r cynydd yng nghyflawniad Cynllun yr Heddlu a Throsedd:<br><br>11/09/13 - Chwarter 1<br>11/11/13 - Chwarter 2<br>17/03/14 - Chwarter 3 | Winston Roddick, Comisiynydd Heddlu a Throsedd |
| **16 Rhag 2013** | **Praesept Bwriedig 2014/15**<br>Ystyried y praesept bwriedig ar gyfer 2014/15<br><br>*(Caiff dyddiad y cyfarfod hwn ei osod yn derfynol yn dilyn cadarnhau'r amserlen ar gyfer sefydlu praesept 2014/15)* | Winston Roddick, Comisiynydd Heddlu a Throsedd |
| **16 Rhag 2013** | **Cyllideb Ddraft ar gyfer y Gwasanaeth Heddlu ar gyfer 2014/15**<br>Ystyried y gyllideb ar gyfer y Gwasanaeth Heddlu ar gyfer 2014/15 | Winston Roddick, Comisiynydd Heddlu a Throsedd |
| **16 Rhag 2013** | **Cyllideb Ddraft ar gyfer Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer 2014/15**<br>Ystyried y gyllideb ddrafft ar gyfer Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer 2014/15. | Winston Roddick, Comisiynydd Heddlu a Throsedd |

| Date | Subject | Responsible Officer (including e-mail address) |
| --- | --- | --- |
| | **Eitemau i'r dyfodol** | |
| **4 Meh 2013** | **Hyfforddi a Datblygu Aelodau**<br>Gofynnir i Aelodau ystyried pa hyfforddiant a datblygu y byddent yn dymuno ei dderbyn. Nid yw'r rhestr ganlynol yn un gynhwysfawr, ond mae'n cynnig dewisiadau hyfforddi i'w hystyried:<br><br>• Cyllid yr Heddlu, gan gynnwys gosod y praesept<br>• Swyddogaeth Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd<br>• Rheoli Perfformiad yr Heddlu<br>• Gofynion Plismona Strategol<br>• Cwynion<br>• Partneriaethau Diogelwch Cymunedol<br>• Cydweithredu<br>• Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol<br>• Penodiadau | Ken Finch, Cyfarwyddwr Strategol (Democrataidd, Rheoleiddio a Chefnogi)<br>ken.finch@conwy.gov.uk |